Parc Sglefrio
Canolfan Gweithgareddau Dyfi
Traciau Beiciau Mynydd
Canolfan Owain Glyndwr
Canolfan Hamdden Bro Ddyfi
Canolfan Technoleg Amgen
Llyfrgell
Tele-ganolfa
Cwrs Golff
Beth sydd yma?
Grîn bowlio
Machinations
Meysydd chwarae
Machynlleth
Gardd Nain
Y Tabernacl & MOMA
Caeau Hamdden
Machynlleth
Llanbrynmair
Glantwymyn
Madian Quads

3.4 Diffiniad o wasanaethau gofal plant i blant o dan 8

Gall lleoliadau gofal plant fod yn gofrestredig neu heb eu cofrestru ac maent yn cynnwys ystod eang o ddarpariaeth i blant o dan 8 oed.

Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru

Yn ôl y gyfraith rhaid i unrhyw ddarparwr sy'n gweithredu gwasanaeth gofal plant i blant o dan 8 am dros 2 awr y dydd gofrestru gydag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC). Rhaid i grwpiau sydd wedi'u cofrestru gydag ASGC fodloni set o safonau gofynnol i sefydlu ansawdd y gofal. Mae'r safonau hyn yn cynnwys y gofynion canlynol:

- Rhaid i safle fod yn ddiogel a phriodol i'r pwrpas
- Rhaid i'r staff fod yn gymwys ac wedi'u hyfforddi yn briodol
- Rhaid gwirio geirda staff a rhaid gwneud gwiriadau iechyd a SCT
- Darperir adnoddau ac offer priodol i'r plant
- Mae darparwyr yn cael arolygiad blynyddol gan ASGC

Estyn

Mae Estyn yn arolygiaeth annibynnol a ariannir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n arolygu ysgolion, colegau a chanolfannau hyfforddi. Mae unrhyw leoliad cyn ysgol sy'n darparu addysg ar gyfer plant 3 oed yn cael arolygiad Estyn hefyd. Mae'n gyfrifol am:

- Hyfforddi a chofrestru arolygwyr addysg feithrin
- Sicrhau ansawdd arolygiadau ac adroddiadau
- Sicrhau fod lefelau arfer da yn cael eu cynnal mewn lleoliadau

Gwasanaeth Gwybodaeth Plant

Mae 22 Swyddfa Gwasanaeth Gwybodaeth Plant (CIS) yng Nghymru yn rhoi gwybodaeth am wasanaethau plant a gofal plant. O dan reolaeth yr awdurdod lleol, mae CIS Powys yn gallu rhoi gwybodaeth gyfrinachol a diduedd am ddim i rieni sy'n chwilio am ddarpariaeth chwarae a gofal plant i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 14 oed (hyd at 16 oed i bobl ifanc gydag anghenion ychwanegol). Mae CIS yn gweithredu fel gwasanaeth arwyddo, gan roi gwybodaeth gyswllt ar gyfer nifer fawr o fudiadau ac asiantaethau ym Mhowys. Gall CIS roi gwybodaeth a chyngor am ystod o ddewisiadau gofal plant:

- Gwarchodwyr plant
- Meithrinfeydd gofal dydd
- Cylchoedd chwarae / Cylchoedd Meithrin
- Grwpiau Rhiant & Phlant / Ti a Fi
- Clybiau allan o'r ysgol a chlybiau gwyliau / Cynlluniau chwarae

Canolfan Plant Integredig

Mae'n un o amcanion allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol i gefnogi a datblygu plant a phobl ifanc yng Nghymru. I hyrwyddo'r amcanion a amlinellwyd yn eu cynlluniau strategol, bwriadwyd sefydlu o leiaf un Ganolfan Plant Integredig ym mhob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru.

Mae Powys yn datblygu pedair Canolfan Integredig yn yr ardaloedd canlynol:

- Bro Ddyfi
- Y Trallwng
- Maesyfed
- Ystradgynlais

Mae Canolfan Integredig yn cynnwys 4 prif elfen:

- Chwarae Mynediad Agored
- Addysg Blynyddoedd Cynnar
- Gofal Plant
- Hyfforddiant a Datblygu Cymunedol

(Gall Canolfannau Integredig gael elfennau ychwanegol yn dibynnu ar yr ardal y lleolir hwy)

Ym Mhowys, er bod 4 adeilad newydd o faint cymedrol, y disgrifiad gorau o'r Canolfannau yw canolfannau "rhithwir" yn cynnwys rhwydwaith o fudiadau sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd o enedigaeth hyd at 14 oed (hyd at 16 oed i bobl ifanc gydag anghenion ychwanegol).

Mae'r rhwydweithiau ym mhob un o'r 4 ardal ym Mhowys yn amcanu at:

- annog mudiadau i weithio gyda'i gilydd ac i gynyddu eu gwybodaeth o waith ei gilydd
- rhannu syniadau ac adnoddau
- rhoi gwybodaeth gyfredol, gywir am y gwasanaethau sydd ar gael mewn ardal benodol
- osgoi dyblygu a gwneud y gorau o gyfleoedd
- ymchwilio anghenion yr ardal a llenwi unrhyw fylchau mewn gwasanaeth a gynigir i blant bach a theuluoedd ifanc yn gyffredinol

Ym Mro Ddyfi mae adeilad y Ganolfan Plant Integredig - T_ Melfed - yn cael ei reoli gan Brosiect Plant Machynlleth Cyf sy'n cydlynu'r Gwasanaeth Gwybodaeth hefyd.

Nid yw'r Ganolfan yn darparu gofal plant ei hun - mae'n cefnogi darpariaeth gofal plant gan y rhwydwaith o ddarparwyr presennol ac mae'n ceisio datblygu cyfleoedd newydd ar gyfer ehangu chwarae a gofal plant ym Mro Ddyfi. Mae'n gweithredu fel gwasanaeth arwyddo i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol sydd eisiau gwybodaeth am weithgareddau a gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

3.5 Darpariaeth Gofrestredig

Gwarchodwyr plant cofrestredig

Mae gwarchodwyr plant cofrestredig yn darparu gofal dydd i blant yn eu cartrefi eu hunain. Gan eu bod wedi'i sefydlu'n lleol, fel arfer, mae'r plant y maent yn gofalu amdanynt yn gallu mynychu gweithgareddau eraill yn y gymuned hefyd, fel Cylchoedd Meithrin a Ti a Fi ac yn y blaen. Gall rhai fod ar gael yn ystod tymor yr ysgol yn unig.

Ar hyn o bryd mae 5 gwarchodwr plant cofrestredig ym Mro Ddyfi yn cynnig lefelau gwasanaeth amrywiol i blant o oed geni i 5 oed.

Meithrinfeydd gofal dydd

Mae meithrinfeydd gofal dydd yn darparu gofal dydd llawn ac addysg blynyddoedd cynnar i fabanod a phlant o enedigaeth hyd at 4 neu 5 mlwydd oed. Maent yn aml yn agored drwy gydol y flwyddyn, Dydd Llun i Ddydd Gwener ac mae eu horiau agor yn ystyriol o anghenion rhieni sy'n gweithio.

Meithrinfa Gymunedol Machynlleth a gynhelir gan Brosiect Plant Cymunedol Machynlleth yw'r unig leoliad gofal dydd cofrestredig hollol ddwyieithog, ym Mhowys Gellir gofalu am hyd at 22 o blant y dydd, o 4 mis oed hyd at 4 mlwydd oed.

Cylchoedd chwarae / Cylchoedd Meithrin

Mae cylchoedd chwarae a Chylchoedd Meithrin yn darparu ar gyfer plant rhwng 2 a 5 oed. Sesiynol yw'r ddarpariaeth fel rheol ac yn bennaf yn ystod y tymor. Anogir plant i chwarae, dysgu a chymdeithasu.

Mae 4 Cylch Meithrin ym Mro Ddyfi yn Machynlleth, Glantwymyn/Cadfarch a Llanbrynmair.

Mae gan bob plentyn yr hawl i le addysg blynyddoedd cynnar rhan amser am ddim (o leiaf 10 awr yr wythnos) yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.

Clybiau Ieuenctid

Nid yw clybiau awdurdodau lleol angen eu cofrestru gan ASGC ond maent yn cadw ar Cof Ymarfer da Gwaith Ieuenctid. Yn cael eu rheoli, fel arfer, gan Weithiwr Ieuenctid cymwys, mae gweithgareddau yn y clybiau hyn yn cael eu harwain gan y bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed sy'n eu mynychu. Fe'u cynhelir gyda'r nos yn aml a gellir cael tripiau ychwanegol yn ystod gwyliau'r ysgol hefyd.

Cynhelir gweithgareddau Clwb Ieuenctid ym Mro Ddyfi ym Machynlleth yn unig. Sefydlwyd ystod o brosiectau i ddelio ag anghenion y bobl ifanc sy'n mynychu a chyflwynir hwy yn hollol ddwyieithog. Mae prosiect merched, cwrs gwarchod plant a chlwb ieuenctid arferol ar gael. Mae'r Gweithiwr Ieuenctid hefyd yn rhoi cefnogaeth ychwanegol i bobl ifanc yn Ysgol Bro Ddyfi amser cinio Dydd Mawrth ac yn cynnig cyngor iechyd rhywiol ar foreau Mercher yn yr Adain Ieuenctid.

Chwarae Mynediad Agored

Gall lleoliadau chwarae mynediad agored fod yn brosiectau chwarae parhaol fel caeau chwarae antur, neu gynlluniau chwarae tymor byr i blant a phobl ifanc 8-16 oed lle maent yn rhydd i fynd a dod fel y mynnont.

Mae arian Chwarae Mynediad Agored ar gael drwy'r Ganolfan Plant Integredig ac yn ystod 2006 hyrwyddwyd 19 prosiect chwarae ym Mro Ddyfi. Sefydlwyd Clwb Kidzone ei gynnal gweithgareddau chwarae mynediad agored i blant yn rheolaidd ar foreau Sadwrn.

Clybiau Allan o'r Ysgol(Gwyliau, Brecwast a Chlybiau ar ôl ysgol a Gofal Cyfleidiol).

Mae clybiau gofal allan o'r ysgol yn darparu gofal plant tu allan i oriau ysgol, sydd o fudd i rieni sy'n gweithio neu fynychu hyfforddiant. Fel rheol, maent yn agored drwy'r flwyddyn ac mae ganddynt oriau agor sy'n ystyried anghenion rhieni.

Mae Prosiect Plant Cymunedol Machynlleth yn cynnal Clwb ar ôl Ysgol a Chlwb Chwarae Gwyliau wedi'u cofrestru gyda ASGC, hollol ddwyieithog sydd hefyd yn agored ar ddyddiau HMS ysgolion ac mae'n darparu ar gyfer hyd at 32 o blant y diwrnod rhwng 4 a 12 oed..

Mae ysgolion lleol hefyd yn cynnal clybiau ar ôl ysgol yn ystod y tymor drwy'r flwyddyn a gallant gynnwys: chwaraeon (Chwaraeon y Ddraig), clybiau gwaith cartref, clybiau brecwast, Pyramid a chlybiau crefft. Mae'r rhain yn amrywio o ysgol i ysgol a gall rhai gweithgareddau redeg am gyfnod o wythnosau yn hytrach na phob dydd. Ni ellir eu hystyried fel atebion parhaol i ddarpariaeth gofal plant allan o'r ysgol ar gyfer pwrpas gwaith ond gallant gynnig mynediad at rhai cyfleoedd chwarae/gofal o ansawdd yn y tymor byr.

Mae ysgolion cynradd ym Mro Ddyfi yn darparu ystod o glybiau i ddisgyblion 4-11 oed. Mae Ysgol Bro Ddyfi hefyd yn cynnal ystod o glybiau ar ôl ysgol a chlybiau amser cinio i ddisgyblion 11-18 oed

Mae Cynlluniau Chwarae Gwyliau (nid Clybiau Gwyliau) fel rheol yn weithgareddau o dan arweiniad y gymuned sy'n cael eu rheoli gan bwyllgor gwirfoddol ac yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr. Os gellir cael cyllid, bydd cynlluniau chwarae am ddim ac maent yn aml yn creu achlysur cymdeithasol boddhaol i blant a rheini fel y'i gilydd yn ystod gwyliau'r haf. Trefnir ystod o weithgareddau chwaraeon, crefft a chwarae awyr agored, gyda'r rhaglenni yn cael eu trefnu fel rheol ar gyfer plant 2-8 oed a 8-16 oed.

Cynhaliwyd dyddiau chwarae gwledig yn Llanbrynmair, Glantwymyn a Machynlleth, wedi'u trefnu gynt gan Chwarae Sir Drefaldwyn. Fodd bynnag, oherwydd diffyg arian, mae'r ddarpariaeth hon wedi dod i ben. Mae pwyllgor gwirfoddol yng Nglantwymyn wedi cynnal cynllun peilot tebyg yn llwyddiannus ac mae'n gobeithio datblygu'r cynllun chwarae ymhellach yn 2007.

Grwpiau Cymunedol / Clybiau

Yn amrywio o ran natur, mae'r rhain yn darparu gweithgareddau cymdeithasol i blant a phobl ifanc allan o oriau ysgol yn aml yn ystod y tymor yn unig. Mae ystod o grwpiau yn cynnwys Geidiaid, Sgowtiaid, Ffermwyr Ifanc, Cadetiaid Milwrol ac Urdd Sant Ioan yn

darparu ar gyfer yr oedran 4 -19 oed. Anaml y mae'r rhain wedi'u cofrestru gyda ASGC er bod y staff / gwirfoddolwyr yn cael gwiriad SCT a gallant dderbyn hyfforddiant penodol. Mae llawer yn ffurfio rhan o sefydliadau cenedlaethol.

Mae dros 21 o grwpiau cymunedol a chlybiau ym Mro Ddyfi ac maent yn weithredol yn Llanbrynmair, Glantwymyn/Cadfarch a Machynlleth. Urdd Sant Ioan (St John's Ambulance) wedi'i leoli yng Nglantwymyn yw'r unig un cyfrwng Cymraeg ym Mhowys.

3.6 Darparwyr Anghofrestredig

Gall rhai darparwyr gofal plant fod heb eu cofrestru gyda ASGC:

- Gr_p Rhieni a Phlant
- Au Pairs
- Gwarchod plant
- Creches
- Cyfeillion / Teulu
- Nanis

Gr_p Rhiant a Phlant / Ti a Fi

Mae'r grwpiau hyn yn darparu man cyfarfod cymdeithasol i rieni gyda phlant o dan 2 oed. Rhaid i rieni aros gyda'u plant ac felly nid oes raid i'r gr_p gofrestru gyda ASGC. Mae plant yn gallu rhyngweithio â'u cyfoedion a mwynhau ystod o weithgareddau chwarae.

Ar hyn o bryd mae 5 Cylch Ti a Fi ym Mro Ddyfi ym Machynlleth, Glantwymyn a Llanbrynmair. Mae NCH Cychwyn Cadarn yn cynnal sesiwn Ti a Fi wythnosol (yn ystod y tymor) yn Nhy Melfed ym Machynlleth ac yn rhoi cefnogaeth, gwybodaeth a chyngor i rieni. Cynhelir yr holl sesiynau Ti a Fi ym Mro Ddyfi yn ddwyieithog yn unol ag anghenion y rhieni a'r plant sy'n mynychu..

Au Pair

Fel rheol, myfyrwyr tramor sy'n dymuno dysgu Saesneg, rhwng 17-25 oed. Mae au pairs yn cael eu trin fel aelod o'r teulu ac maent yn cael cytundeb i 'fyw i mewn'. Gallant weithio hyd at 5 awr y dydd ac fel rheol maent yn derbyn costau byw a llety yn hytrach na chyflog gwirioneddol.

Nid oes unrhyw ystadegau ar gael ar hyn o bryd am y nifer o au pairs sy'n gweithio ym Mro Ddyfi.

Gwarchod plant

Yn aml, merched ifanc sy'n gwarchod plant i ennill arian poced ychwanegol. Maent yn edrych ar ôl plant pan fydd rhieni angen amser i fynd allan, fel rheol gyda'r nos. Mae'r gofal yn digwydd yng nghartref y plentyn ei hun. Mae canllawiau NSPCC yn dweud y dylai'r rhai sy'n gwarchod plant fod o leiaf 16 oed.

Nid oes ystadegau ar gael ar hyn o bryd am y nifer o warchodwyr sy'n gweithio ym Mro Ddyfi, er bod Gwasanaeth Ieuenctid CSP yn trefnu cyrsiau achrededig mewn edrych ar ôl plant ym Machynlleth.

Nanis

Mae nanis hefyd yn edrych ar ôl plant yng nghartref y teulu. Nid ydynt yn cael eu cofrestru na'u rheoleiddio.

Nid oes ystadegau ar gael ar hyn o bryd am y nifer o nanis sy'n gweithio ym Mro Ddyfi.

Crèches

Mae crèches yn darparu gofal achlysurol i blant bach tra bydd eu rhieni yn mynychu hyfforddiant, gweithgareddau chwaraeon neu ddigwyddiadau cymdeithasol. Rhaid i'r rhieni aros ar y safle rhag ofn achosion brys ond nid yn benodol yn yr un ystafell. Rhaid i crèche fod yn gofrestredig os bydd yn darparu gofal i blant o dan 8 oed, yn rhedeg am fwy na 2 awr y dydd a mwy na 6 diwrnod y flwyddyn os cynhelir hwy yn yr un lleoliad.

Mae NCH Cychwyn Cadarn yn cynnal gwasanaethau crèche ym Machynlleth yn galluogi rhieni i fynychu rhaglenni hyfforddi fel Cymraeg i Rieni, LAP/NAP, Chwarae & Dysgu/Baban Cymru.
Mae MCCP Cyf yn darparu cyfleusterau crèche yn ôl y gofyn ar gyfer gweithgareddau cymunedol a rhaglenni hyfforddi fel Prosiect Rhianta Ymestyn Allan Ysgol Cedewain yn Nhy Melfed a digwyddiadau Genesis Cymru Powys.

Cyfeillion / Teulu

Gall rhieni ddibynnu ar gyfeillion a theulu i edrych ar ôl eu plant am gyfnodau byr. Mae hyn yn aml yn drefniant hyblyg ac anffurfiol yn dibynnu ar ddychwelyd y ffafr. Gall gofal fod yn afreolaidd ac yn ôl y gofyn.

3.7 Addysg & Hyfforddiant

Mae 3 ysgol gynradd ym Mro Ddyfi yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 4 a 11 oed :

Ysgol Gynradd Gymunedol Machynlleth (Dwyieithog)

Pennaeth: Mr Dilwyn Jones

Nifer disgyblion: 260

Mae Ysgol Gynradd Machynlleth wedi'i threfnu yn unol â pholisi Awdurdod Lleol Powys i ddwy ffrwd iaith. Gellir addysgu'r disgyblion mewn ffrwd cyfrwng Cymraeg lle addysgir y plant yn bennaf drwy'r Gymraeg neu yn y ffrwd cyfrwng Saesneg, lle addysgir y plant drwy'r Saesneg gyda'r Gymraeg yn cael ei haddysgu fel ail iaith. Yn unol â pholisi derbyn yr Awdurdod Lleol, gellir derbyn disgyblion ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Nid yw'r ysgol yn derbyn plant yn rhan amser.

Ysgol Gynradd Gymunedol Glantwymyn (cyfrwng Cymraeg)

Pennaeth: Mrs Rhiannon Causer

Nifer disgyblion: 89

Mae Ysgol Gynradd Glantwymyn yn ysgol cyfrwng Cymraeg ac mae'n gwasanaethu pentref Glantwymyn a'r pentrefi gwledig cyfagos. Ar hyn o bryd, mae 89 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol ac y maent yn cael eu derbyn i addysg amser llawn yn ystod yr hanner tymor, neu ar ddechrau'r tymor, yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae 40% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith, sydd yn ostyngiad o'r 60% a gofnodwyd yn arolygiad Estyn yn 1996. Fodd bynnag, mae 95% yn dod i siarad Cymraeg yn rhugl yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Ysgol Llanbrynmair (Cyfrwng Cymraeg)

Pennaeth: Mrs Bethan Bleddyn

Nifer disgyblion: 42

Mae Ysgol Llanbrynmair yn derbyn disgyblion yn unol â pholisi Awdurdod Addysg Powys ym mhentref Llanbrynmair a'r ardal gyfagos. Gellir derbyn plant i'r ysgol yn amser llawn ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae Ysgol Llanbrynmair yn ysgol cyfrwng Cymraeg a disgwylir i blant gyfathrebu yn y Gymraeg, ac eithrio mewn gwersi cyfrwng Saesneg. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae nifer o deuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi symud i fyw yn yr ardal ac o'r herwydd mae mwyafrif o'r disgyblion yn awr yn dod o gartrefi di-Gymraeg.

Mae ysgol uwchradd ym Mro Ddyfi sy'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 11- 16 (18) oed:

Ysgol Bro Ddyfi (Dwyieithog)

Pennaeth: Mrs Lis Puw

Nifer disgyblion: 276.

Mae Ysgol Bro Ddyfi yn ysgol gyfun ddwyieithog draddodiadol wedi'i rheoli gan Awdurdod Unedol Powys. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn dod o Fachynlleth ei hun drwy Ysgol Gynradd Machynlleth a daw'r gweddill o'r 2 brif ysgol arall sy'n ei bwydo, Glantwymyn a Llanbrynmair. Mae'r ysgol hefyd yn derbyn plant o'r siroedd cyfagos, Gwynedd a Cheredigion. Mae canran sylweddol (tua 18%) o ddisgyblion Blwyddyn 6 o'r prif ysgolion sy'n bwydo yn dewis trosglwyddo i ysgolion uwchradd eraill yn hytrach nag Ysgol Bro Ddyfi.

Mae gan Ysgol Bro Ddyfi y 6ed dosbarth lleiaf yng Nghymru a Lloegr, gyda dim ond 31 o ddisgyblion. Dim ond 35% o blant 16 oed a ddychwelodd i Flwyddyn 12 gyda 70% yn parhau i Flwyddyn 13.

Yn ôl adroddiad Estyn yr ysgol yn 2003, roedd oddeutu 50% o'r disgyblion yn dod o ardaloedd nad oeddynt yn ffynnianus nac o dan anfantais economaidd, tra bo'r gweddill yn dod o ardaloedd oedd yn economaidd ddifreintiedig. Roedd lefelau gallu ar gyfartaledd y disgyblion yn dechrau ym Mlwyddyn 7 wedi bod yn is, am nifer o flynyddoedd, na'r canrannau at gyfer Cymru yn gyffredinol. Roedd profion mwy diweddar, fodd bynnag, wedi dangos fod lefelau gallu Blwyddyn 7 yn debyg i gyfartaledd Cymru.

Mae 63% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle mae Saesneg yn brif iaith a 37% yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Mae 61% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf ac maent yn cael eu haddysgu mewn pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ysgol yn darparu cyrsiau yn Saesneg a Chymraeg ac addysgir rhai dosbarthiadau yn ddwyieithog. Ym Mlynyddoedd 7 i 9, mae un ffrwd yn derbyn tua 80% o'r cwricwlwm yn Gymraeg a'r gweddill yn Saesneg. Mae'r ail ffrwd yn derbyn tua 50% o'r cwricwlwm yn Gymraeg a'r gweddill yn Saesneg tra bo'r drydedd ffrwd yn derbyn tua 80% o'r cwricwlwm yn Saesneg a'r gweddill yn Gymraeg. Ym Mlynyddoedd 10 ac 11, gall disgyblion gymryd eu holl bynciau yn Gymraeg neu Saesneg, yn bennaf mewn dosbarthiadau dwyieithog. Ym Mlynyddoedd 12 a 13, mae dewis o gyrsiau ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Prif ddarparwyr addysg ar ôl 16 yw:

- Coleg Powys
- Coleg Meirion Dwyfor
- Coleg Ceredigion
- Powys Training (addysg wrth weithio)
- Cambrian Training (addysg wrth weithio)
- Darparwyr hyfforddiant llai eraill.

Yn ôl Prosiect Braenaru Bro Ddyfi mae myfyrwyr addysg bellach yn teithio 38 milltir ar gyfartaledd, gyda chyfartaledd Cymru oddeutu 28. Gyda gweithrediad y cynllun hwn wedi'i gyfuno â phosibilrwydd 'Campws Cymunedol' mae'n debygol y bydd cyfres o newidiadau radical yn y dulliau o gyflwyno addysg a dysgu cymunedol ym Mro Ddyfi.

Mae disgyblion yn ardal Bro Ddyfi gydag anghenion dysgu penodol yn mynychu Ysgol Anghenion Arbennig Cedewain yn Y Drenewydd.

Ysgol Cedewain

Pennaeth: Mr Peter Tudor

Nifer disgyblion: 66

Dros y 5 mlynedd diwethaf mae niferoedd disgyblion yn Ysgol Cedewain wedi dyblu a daeth yn ysgol fwy cynhwysol i blant gydag ystod eang iawn o anableddau ac anawsterau dysgu.. Mae Ysgol Cedewain hefyd yn gweithredu gwasanaeth ymestyn allan yn cefnogi disgyblion gydag anghenion arbennig mewn ysgolion prif ffrwd. Sefydlwyd Prosiect Ymestyn Allan Rhianta, yn cefnogi rhieni plant gydag anghenion ychwanegol yn ddiweddar gyda chyfres o weithdai cefnogaeth a gwybodaeth wythnosol wedi'u lleoli yn Nhy Melfed ym Machynlleth. Cynhaliwyd diwrnod lansio llwyddiannus yn Ionawr 2007 gyda chynrychiolwyr o nifer o grwpiau cymunedol a phenaethiaid o ysgolion Machynlleth a Glantwymyn yn bresennol.

Hefyd, mae gan yr ysgol ystafell aml-synhwyrol newydd ac ystafell ddosbarth benodol yn canolbwyntio ar gwricwlwm aml-synhwyrol. Mae llawer o'r disgyblion yn mwynhau cysylltiadau gyda'r ysgolion cynradd ac uwchradd lleol ac mae'r holl ddisgyblion yn dilyn y cwricwlwm cenedlaethol ar y cam allweddol priodol. Mae'r dosbarthiadau cyffredinol yn cynnwys hyd at 10 disgybl gyda'r athrawon yn cael cefnogaeth gan ddau gynorthwy-ydd dysgu cymwysedig.

Mae dalgylch yr ysgol yn un o'r mwyaf ym Mhrydain ac mae'r holl ddisgyblion yn teithio i'r ysgol yn ddyddiol. Mae oedran y disgyblion yn amrywio o 2.5 oed hyd at 19 oed.

Mae'r holl addysgu yn Ysgol Cedewain trwy gyfrwng Saesneg. Addysgir Cymraeg, fel ail iaith, fel pwnc cwricwlwm cenedlaethol gan athrawon Cymraeg arbenigol.

Mae disgyblion Ysgol Cedewain yn cael cludiant cartref / ysgol am ddim. Mae gwasanaeth bws mini yn teithio ar draws Bro Ddyfi, yn casglu nifer o blant lleol ar y ffordd.

3.8 Holwyd am ymateb gweithwyr proffesiynol i'r gwasanaeth presennol ym Mro Ddyfi

Holwyd am ystod o farn broffesiynol am lefel bresennol y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ym Mro Ddyfi:

'Mae'n bwysig adnabod ac annog/cefnogi mwy o sefydliadau lleol i gael gafael ar arian chwarae Mynediad Agored. Ar hyn o bryd ceir grwpiau fel y Brownies , y Geidiaid, Celf o Gwmpas, y Gwasanaeth Ieuenctid ac wrth gwrs, Prosiect Plant Cymunedol Machynlleth. Fodd bynnag, mae sefydliadau eraill, fel y Cylch Meithrin ayyb nad ydynt yn gallu cael gafael ar yr arian hwn oherwydd oedran darged y rhai sy'n cymryd rhan yn eu grwpiau. Tybed a yw hi'n bosibl datblygu'r gallu iddynt ehangu eu cylch gorchwyl i'w galluogi hwy i ddatblygu mwy o gyfleoedd chwarae mwy amrywiol ac ar gael yn lleol.

Yn amlwg mae angen datblygu cyfleoedd chwarae sydd ar gael i BOB plentyn ac felly dylid datblygu sesiynau chwarae mwy cynhwysol / dwyieithog lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Gall chwarae, sydd yn arf pwysig i leihau effaith negyddol ystrydebau lunio sesiynau / prosiectau wedi'u seilio ar amrywiaeth diwylliannol / iaith / anabledd ayyb i helpu gwir integreiddio ac ymbweru unigolion.

Mae angen i deuluoedd chwarae ynghyd, fel gwyddom, ac weithiau mae'n anodd iddynt gael lleoliadau/cyfleoedd priodol. Rwyf yn meddwl am y rhieni sydd wedi gwahanu ac sydd yn ymweld â'u plant yn yr ardal. Mae amser yn werthfawr iddynt a gallai prosiect sy'n cefnogi aelodau teuluoedd sydd wedi gwahanu fod yn ffordd ddefnyddiol o helpu ar sawl lefel yn ogystal â'u harwyddo tuag at wasanaethau a gwybodaeth arall. Gallai Cychwyn Cadarn fod yn bartner posibl?

Yn aml, nid yw rhieni yn gwybod sut i chwarae gyda'u plant a byddai prosiect sy'n cysylltu sgiliau magu plant / chwarae / maeth /ymarfer ayyb yn ticio cymaint o flychau.

Mae'r amgylchedd awyr agored yn adnodd nad yw'n cael ei ddefnyddio'n llawn ac mae angen prosiectau sy'n annog plant "i gael hwyl tu allan" a dysgu parch tuag at eu hamgylchedd, p'run ai yw hynny'n stryd, cae chwarae, cae, traeth neu goedwig. Efallai cysylltu â Mentro Allan i rannu adnoddau ac amcanion ayyb.

Mae angen datblygu'r gwasanaeth llyfrgell deganau - angen cyllid am brosiect/ gweithiwr, teganau newydd, gellir ei gysylltu â gwasanaeth cyflenwad deunyddiau crefft teithiol, hyfforddiant ayyb. Defnyddiol i wneud cysylltiadau lleol, gwybodaeth, arwyddo ayyb.

Mae hyfforddiant neu gwrs Gwaith Chwarae hyblyg, parhaus a phriodol ac wedi'i gyflwyno'n lleol yn hanfodol er mwyn gwneud i hyn oll ddigwydd. Mae hyfforddiant gwaith chwarae ar gael ac mae angen help er mwyn iddo dreiddio i lawr i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant. Efallai gallai Cymunedau yn Gyntaf fod yn asiant/cyswllt lleol yn darparu lleoliad, adnabod gr_p / anghenion, annog cyfranogaeth a chydlynu â Gweithwyr Datblygu Chwarae.

Mae'n bwysig hefyd fod Cymunedau yn Gyntaf yn gallu cysylltu â'r Gweithiwr Datblygu Chwarae i helpu i ddosbarthu gwybodaeth i grwpiau a rhieni am gyfleoedd chwarae/hyfforddiant lleol - efallai fel rhan o gylchlythyr".

Mel Chandler – Gweithiwr Datblygu Chwarae (Sir Drefaldwyn), Fforwm Plant & Theuluoedd Powys

‘Ar hyn o bryd, ychydig iawn o gyfleoedd sydd ar gael i blant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol yn yr ardal hon (Bro Ddyfi). Ers cau Clwb Ieuenctid Cynhwysol Chwarae Sir Drefaldwyn sawl blwyddyn yn ôl, nid oes gweithgareddau cymdeithasol cynhwysol penodol i blant a phobl ifanc i gyfarfod a chael hwyl tu allan i oriau ysgol. Mae nifer o blant sy'n byw yn yr ardal hon sy'n mynychu Ysgol Cedewain (Ysgol Anghenion Arbennig) yn y Drenewydd ac mae'n rhaid iddynt deithio ymhell i gael gafael ar ddarpariaeth chwarae hollol gynhwysol - fel rheol drwy'r drefn addysg. Yr hyn sydd ei angen arnom yw cyllid wedi'i ddiogelu i sefydlu clwb ieuenctid o bobl ifanc 8 -19 oed yn cyflogi staff cefnogi arbenigol, gydag adnoddau priodol ar gael mewn lleoliad sydd yn gwbl hygyrch. Byddai croeso i frodyr/chwiorydd/cymheiriaid plant ag anghenion arbennig i ddod yno ond byddai'r pwyslais ar ddarparu ystod o gyfleoedd cymdeithasol i'r bobl ifanc hyn sy'n cael eu tangynrychioli.

Owen Bean - Cynorthwy-ydd Cefnogi

Ysgol Cedewain Y Drenewydd
Yn gyn-Gydlynydd Cynhwysiant Ieuenctid i Chwarae Sir Drefaldwyn

Detholiad o'r County Times & Express (rhifyn Mawrth 16^{eg} 2007)

‘Cynllun chwarae yn cael ei ddiddymu wrth i’r argyfwng ariannol frathu’

‘Canslwyd cylch chwarae gwyliau ysgol anghenion arbennig (cynllun chwarae*) oherwydd argyfwng cyllid’. Mae'r cynllun chwarae gwyliau pum wythnos a gynhelir gan Chwarae Sir Drefaldwyn yn Ysgol Cedewain wedi methu cael arian eleni a bu'n rhaid ei ddiddymu. Dywedodd Peter Tudor, Pennaeth Ysgol Cedewain ei fod yn ‘siomedig iawn’ gyda'r newyddion a dywedodd ei fod yn ‘golled fawr’.*

Er bod y cynllun wedi'i leoli yn y Drenewydd, roedd plant a staff o Lanidloes ac ardaloedd eraill wedi dod i ddibynnu ar y gwasanaeth am y saith mlynedd diwethaf ac nid oes ganddynt unrhyw ddewis arall’.

Mae Ysgol Cedewain yn y Drenewydd yn darparu addysg anghenion arbennig i blant rhwng 4-18 oed sydd ag anghenion ychwanegol a chymhleth. Mae Machynlleth, Glantwymyn/Cadfarch a Llanbrynmair yn dod o fewn dalgylch yr ysgol. Mae nifer o'r plant sy'n byw yn yr ardal yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd ac maent wedi mwynhau'r gweithgareddau a ddarparwyd gan y cynllun chwarae haf yn y gorffennol.

‘Byddai rhaglen pedair blynedd ***Mentro Allan (Bro Ddyfi)*** *yn awyddus i weithio gyda gweithiwr chwarae ymestyn allan a gall glustnodi peth amser staff ac ychydig o gostau refeniw ar gyfer darpariaeth gweithgareddau er mwyn darparu gweithgareddau awyr agored actif yn yr ardal yn enwedig i deuluoedd / rhieni ifanc gyda phlant bach a phlant 111 - 18 oed. Mae chwarae awyr agored yn elfen hanfodol o ymarfer a datblygiad i blant a phobl ifanc.*

Mae ymchwil gan Gyngor Chwaraeon Cymru yn dangos tra bo oedolion ym Mhowys yn llawer mwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored nag oedolion yng Nghymru yn gyffredinol, mae pobl ifanc yn llai tebygol na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae pobl ifanc yn llawer llai tebygol o fod yn actif nag oedolion ac yr oedd y ffigyrau isaf ym Mhowys ar gyfer merched ifanc (dim ond 8% o'r merched ifanc yn sampl Powys oedd yn actif yn yr awyr agored o gymharu â chyfartaledd Cymru i ferched ifanc, sef 16.7)’

Gweler data CChC isod:-

Cyfranogaeth mewn gweithgareddau awyr agored gan oedolion a phobl ifanc:

Powys a Chymru gyfan

			Powys Canran	Cymru gyfan Canran
Oedolion	Pob gweithgaredd	Pawb	58	**48.8**
		Gwryw	60	**52.6**
		Benyw	56	**45.3**
	Gweithgareddau Awyr Agored	Pawb	48	**36.6**
		Gwryw	50	**38.5**
		Benyw	47	**34.8**
Pobl ifanc (o dan 18)	Gweithgareddau Awyr Agored	Pawb	12	**16.5**
		Gwryw	15	**16.2**
		Benyw	8	**16.7**

Mae pedwar deg naw y cant o holl oedolion yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau awyr agored. Mae hyn yn cymharu â 25 y cant o oedolion a oedd yn ymarfer yn gymedrol a 37 y cant oedd yn ymarfer yn egniol yn Arolwg Iechyd Cymru 1998. Gofynnodd Arolwg Iechyd Cymru a oedd oedolion yn bodloni'r canllawiau o bum sesiwn 30 munud o weithgaredd corfforol yr wythnos. Dim ond 29 y cant oedd yn gwneud hynny, sy'n dangos fod hyn yn debyg i'r ymarfer egniol yn arolwg 1998.

Mae'r ffigyrau hyn yn dangos fod y niferoedd pobl sy'n ymarfer yn ysgafn neu ddim o gwbl a ddangosir uchod yn tanamcangyfrif y cyfanswm na fyddent yn bodloni'r canllawiau presennol.

Mae llai o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored nag oedolion. Mae hyn yn dangos y bydd gan brosiectau sy'n gweithio gyda phobl ifanc ganran uwch o'r boblogaeth fel targed.

Teresa Walters – Cydlynydd

Mentro Allan – Venture Out (Bro Ddyfi)
ecodyfi

Nid yw'r lleoedd chwarae awyr agored yn yr ardal hon yn gyffrous iawn. ***Mae'r sesiynau Ysgol Goedwig*** *a gynhelir yn Llanbrynmair a Glantwymyn fel rheol yn cael eu lleoli ar gae fflat - felly byddai rhyw fath o dirlunio yn wych. Gwelais syniadau diddorol iawn o'r Almaen mewn cynhadledd ddiweddar ar fannau chwarae. Mae'r rhain yn lleoedd gyda llawer o "ymyl" iddynt - yn wydn, ac yn y blaen. Gwn fod cryn nifer o blant 11 + oed yn ardal Llanbrynmair a Glantwymyn yn mwynhau gweithgareddau Ysgol Goedwig ac sy'n mynd i glwb eco yn ystod amser cinio yn Ysgol Bro Ddyfi ond nad ydynt yn mynychu gweithgareddau a gynhelir iddynt yn yr ardal .... Credaf nad yw'r dirwedd yn eu "dal".*

Mae cludiant cyhoeddus hefyd yn anobeithiol i bobl ifanc yn yr ardal hon. Mae'n anodd cydlynu amseroedd bysiau gyda gweithgareddau ac yn anorfod, mae pobl ifanc yn eu cael eu hunain yn loetran o gwmpas ym mhob tywydd, yn aros am y bws. Mae hyn yn golygu fod llawer o bobl ifanc yn casáu defnyddio cludiant cyhoeddus ac maent yn dibynnu ar eu rhieni i'w cludo i'w gweithgareddau cymdeithasol.

Ruth Brocklehurst – Arweinydd Ysgol Goedwig

Menter Addysg Coedwig Dyfi

‘Mae heriau sylweddol i'w wynebu mewn creu cyfleoedd chwarae, yn enwedig cyfleoedd mynediad agored mewn ardaloedd gwledig. Wrth natur, mae cyfleoedd chwarae mynediad agored yn dibynnu ar blant yn gallu mynd a dod fel y mynnont. Fodd bynnag, mewn ardaloedd isel eu poblogaeth, mae'n rhaid i blant a phobl ifanc un ai deithio i gael darpariaeth chwarae, ac os felly, nid ydynt yn gallu mynd a dod y rhydd, neu mae'n rhaid i ddarpariaethau chwarae fod ar lefel leol iawn gyda nifer fechan iawn o blant, ac nid yw hynny'n gost effeithiol.

Mae manteision sylweddol i blant a phobl ifanc os gallant ddefnyddio darpariaeth chwarae mynediad agored os gellir hyrwyddo hynny. Mewn rhai o'r ardaloedd mwy gwledig lle nad yw'n hawdd i ffrindiau ddod at ei gilydd tu allan i'r ysgol, gall mynediad at unrhyw gyfleuster chwarae gr_p fod yn gyfle hollbwysig i gymdeithasu a datblygu sgiliau bod yn annibynnol.

Louise Bell - Uwch Swyddog Datblygu Gofal Plant
Cyfarwyddiaeth Plant, Teuluoedd & Dysgu Gydol Oes
Cyngor Sir Powys

Sefydlwyd Prosiect Plant Machynlleth Cyf i fodloni anghenion teuluoedd lleol, gan ddechrau gyda chreu'r Feithrinfa Gymunedol a rhai blynyddoedd yn ddiweddarach daeth y Clwb ar ôl Ysgol, y Clwb Gwyliau, Cylch Meithrin Y Plas ac yn ddiweddar, Kidzone, clwb chwarae mynediad agored.

O gydnabod pwysigrwydd rhannu gwybodaeth ac arwyddo i aelodau rhwydwaith a theuluoedd fel y'i gilydd, roedd MCCP Cyf yn awyddus i gefnogi gwaith Canolfan Plant Integredig Bro Ddyfi ac yn ddiweddarach gwnaeth gais i ymgymryd â rheolaeth yr elfen adeiladau yn Nhy Melfed a'r rôl ‘Cydlynu Gwybodaeth’ yn dosbarthu gwybodaeth i asiantaethau a mudiadau cysylltiedig. Rydym yn sylweddol ein bod yn chwarae rhan bwysig yng nghyflwyniad lleol darpariaethau dwyieithog, chwarae plant a gofal plant, gan ymdrechu'n barhaus i wella ein hamrywiaeth o wasanaethau i fodloni'r galw lleol. Rydym yn cael ein cyfyngu o ran cyflwyno gwasanaeth i'n llawn botensial gan nifer o ffactorau:

- ***Adeiladau mwy*** *– wedi tyfu'n rhy fawr i'r Feithrinfa bresennol gan weithredu gyda'r niferoedd uchaf yn aml gyda rhestr aros. Dewisiadau fforddiadwy, prin i ehangu. Adeilad mwy = mwy o leoedd gofal plant ar gael.*
- ***Cynaliadwyedd*** *- Mae'r ffioedd a godir yn fforddiadwy, yn ystyried yr economi leol - effaith ar gynaliadwyedd gan fod y costau craidd yn uchel - ychydig o gefnogaeth ariannol sydd ar gael i gostau refeniw parhaus. Oblygiadau isafswm cyflog i gyflogwyr.*
- ***Cludiant*** *- dim cludiant cyhoeddus i ddod â phlant i mewn o'r pentrefi cyfagos ar ôl ysgol. Rhaid i rieni dalu am dacsis preifat neu wneud trefniadau anffurfiol, sy'n cyfyngu ar ddarpariaeth gofal gofleidiol.*
- ***Mae bwlch o ran gwybodaeth yn cyrraedd rhieni*** *– angen mwy o hysbysebu i glybiau Ar ôl Ysgol a Gwyliau i sicrhau fod rhieni yn gwybod am y ddarpariaeth. Angen gwaith uniongyrchol gyda'r gymuned ehangach. Gallu cyfyngedig oherwydd yr oriau a gyllidir.*
- ***Costau gweithdai*** *– costau Clwb Chwarae Gwyliau yn uchel - yn dibynnu ar arian allanol gan mai anaml y bydd incwm o ffioedd yn talu am gostau gweithdai. Mae amlder gweithdai/tripiau ysgogol, o ansawdd da yn ddibynnol ar y lefel o arian a gafwyd - cefnogaeth annigonol gan yr awdurdod lleol.*
- ***Costau staff/hyfforddiant*** *- rydym yn darparu nifer o leoedd hyfforddi ar gyfer myfyrwyr NVQ trwy Hyfforddiant Powys. Er bod costau eu hyfforddiant yn cael eu hariannu, er mwyn gwneud NVQ lefel 3, mae'n rhaid i fyfyrwyr gale eu cyflogi am o leiaf 16 awr yr wythnos mewn lleoliad priodol. Heb fynd dros y gymhareb staff cymwysedig: heb gymhwyso sydd yn ein cyllideb, rydym yn cael ein cyfyngu gan y nifer o hyfforddai yr ydym yn eu cyflogi oherwydd y costau cyflogi i ni, nad ydym yn derbyn unrhyw gefnogaeth ariannol ar eu cyfer. Yn awr, rydym yn gorfod cyfyngu'r nifer o leoliadau y gallwn eu cynnig i fyfyrwyr lleol oherwydd hynny. Yn aml, ar ddiwedd eu lleoliad hyfforddi rydym yn methu cynnig swydd barhaol iddynt, gan ei bod o fudd ariannol i ni gyflogi hyfforddai arall ar raddfa gyflog is.*
- ***12 + oed****- ar hyn o bryd rydym yn darparu gwasanaeth all-ysgol hyd at 11 oed. Credwn, fodd bynnag, bod angen rhyw fath o ddarpariaeth i blant 12+ oed i osgoi iddynt ddychwelyd i gartref gwag os yw'r ddau riant yn gweithio.*

Rydym angen cefnogaeth barhaus yr awdurdod lleol i weithredu amcanion y strategaethau niferus a osodwyd allan gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym mewn sefyllfa ddelfrydol i gyflwyno'r amcanion allweddol ar ran yr awdurdod lleol, ond rydym angen cymorth ariannol i wneud hynny - rydym yn dibynnu'n drwm ar arian grant ar gyfer prosiectau datblygu penodol.

Diane Jones – MCCP Cyf Prif Weithredwr
& Rheolwr y Ganolfan Plant Integredig (Bro Ddyfi)

'Diolch am y cyfle hwn i roi rhai syniadau ger bron'.

'Yn awr gydag ymwybyddiaeth gynyddol y cyhoedd am faterion newid hinsawdd a'r symudiad cyffredinol tuag at leihau ein hôl troed carbon, dylai rôl y llyfrgell deganau fod yn fwy nag erioed. Mae rhentu teganau yn achosi llawer llai o allyriannau na'u prynu!

Hoffwn weld gweithdai i blant, pob math. Credaf fod y sesiynau Chwarae Mynediad Agored wedi dangos i ni fod archwaeth am y math hwnnw o beth, ond gan mai dim ond unwaith y mis y mae'n digwydd, ni fydd yn creu digon o fomentwm i gyrraedd ei lawn botensial. Mae llawer o weithgareddau plant eraill yn digwydd ar foreau Sadwrn, e.e. pêl-

droed, balet, i enwi dim ond dau, ac mae'n annhebygol fod plant a rhieni yn mynd i ollwng gweithgaredd wythnosol am rywbeth a fydd yn digwydd dim ond unwaith y mis.

Byddai gweithdai crefft yn llwyddiannus - mae mwy eisiau dod i'r gweithdai y mae'r siop crefftau ym Machynlleth yn eu cynnal na sydd le iddynt bob tro.

Credaf y byddai'n syniad da i gysylltu â'r prosiect "Mentro Allan" y mae Ecodyfi yn ei redeg, o ran chwarae awyr agored. Gallem ddod i mewn gyda gemau parasiwt a gemau buarth chwarae traddodiadol (marblis, rhaffau sgipio ayyb) Gallai hyn fod yn un da i gael y rhieni i gymryd rhan. Weithiau credaf fod angen dangos i rieni sut i chwarae gyda'u plant ac efallai gallem wneud rhai gweithgareddau/gweithdai gyda'r syniad hwnnw mewn golwg. Gallent ymdrin â nifer o bynciau e.e. sut i ddechrau gwneud crefftau gyda'u plant, pa gemau i chwarae tu allan (yn y parc/ar y traeth/yn y goedwig) a hyd yn oed darparu cyfleoedd chwarae i blant a rhieni yn rheolaidd, fel clwb i raddau.
Yn fy marn i, credaf y byddai'n well ceisio ymuno â grwpiau sy'n bodoli cymaint ag y gallwn, a gweithio gyda'n gilydd.

Ann Lamot- Llyfrgellydd

Llyfrgell Deganau Machynlleth
Chwarae Sir Drefaldwyn

Dadansoddiad o Angen

4.1 Ymgynghori â'r gymuned

Cynhaliwyd ymgynghoriadau â'r cyhoedd drwy sawl dull:

- Trafodaethau wyneb yn wyneb
- Atebion ysgrifenedig / e bost
- Sgwrs ffôn
- Adroddiadau gwerthuso
- Adborth ffurfiol gan ddefnyddwyr gwasanaeth
- Holiaduron

Er bod 3 digwyddiad ymgynghori ym mhob un o'r wardiau etholiadol wedi cael eu cynllunio ar gyfer y prosiect hwn, wrth gynllunio'r digwyddiadau gwirioneddol, adwaith y gymuned ar y dechrau i ymarfer o'r fath oedd *'mae hyn i gyd wedi digwydd o'r blaen'* gyda *'ychydig iawn o gynnydd gwirioneddol mewn bodloni anghenion penodedig y gymuned'* a *'hollol ddibwrpas gan nad oes unrhyw beth yn dod allan ohono wedyn'*. Gyda hyn mewn golwg, roedd yn ymddangos yn fwy ymarferol i ddefnyddio'r adborth oedd yn bodoli yn effeithiol a chyfyngu ar faint yr ymgynghori uniongyrchol i'r meysydd hynny lle'r oedd gwybodaeth annigonol ar gael. Roedd ardaloedd a grwpiau penodol yn y gymuned yn llai parod i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau pellach ac eto, dyma lle'r oedd angen mwy o waith o benderfynu barn wirioneddol y plant a phobl ifanc.

Ni wnaeth datganiadau i'r wasg yn y Cambrian News, Shropshire Star a'r County Times yn rhoi manylion y prosiect ac yn gwahodd mudiadau lleol i gyfrannu at yr archwiliad a dadansoddiad anghenion hwn ysbrydoli unrhyw gr_p i gysylltu a rhoi gwybodaeth am ei wasanaeth.

Profodd siarad yn uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc mewn sefyllfaoedd anffurfiol i fod o'r budd mwyaf, ac er bod amcanion y prosiect wedi cael eu hegluro iddynt, yn gyffredinol roeddynt yn teimlo eu bod yn gallu mynegi eu barn a'u sylwadau mewn dull ysgafn, sgyrsiol heb deimlo eu bod yn ddim ond 'rhan o broses ymgynghori'. Drwy weithio gyda Gweithiwr Ieuenctid CSP yn ystod amser cinio ar Ddydd Mawrth, gofynnwyd i fyfyrwyr oeddynt yn dod o'r ardal gyfan i fynychu Ysgol Bro Ddyfi am eu barn bersonol am y gwasanaethau presennol a'u syniadau am welliannau i'r ystod o weithgareddau ar gael. Rhoddodd plant a phobl ifanc yn mynychu prosiectau chwarae mynediad agored yn Llanbrynmair, Glantwymyn a Machynlleth adborth hefyd ar gyfer y dadansoddiad. Rhoddodd plant lleol oedd yn mynychu gwasanaethau Prosiect Plant Cymunedol Machynlleth wybodaeth allweddol yn ogystal. Lle bynnag yr oedd yn briodol gwneud hynny, holwyd grwpiau o bobl ifanc ar y stryd hefyd am eu barn er bod llawer yn anfodlon i gymryd rhan yn y gweithgaredd gan ddweud mai *'gwastraff amser'* fyddai. Gyda'i gilydd cyfrannodd dros 130 o blant a phobl ifanc yn uniongyrchol at y dadansoddiad angen gyda 271 pellach yn cael eu cynrychioli gan rieni yn llenwi holiaduron. (Risg bychan o ddyblygu na ellid ei fesur gyda rhieni yn rhoi gwybodaeth mewn holiaduron am blant a oeddynt eisoes wedi'u cynnwys yn y ffigwr ymgynghori uniongyrchol.)

Roedd cysylltiadau gyda grwpiau cymunedol lleol yn ddefnyddiol wrth geisio adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Roedd arweinwyr grwpiau yn fodlon cydlynu dosbarthu'r holiaduron ac ar y cyfan, roeddynt yn fodlon i ni ymgynghori yn uniongyrchol a'u haelodau.

Ystyriwyd adroddiadau gwerthuso ar ôl prosiectau yn cynnwys sylwadau ac adborth gan blant a phobl ifanc yn ystod y broses hon, gan roi dealltwriaeth ddiddorol o'r diddordebau, hobïau a gweithgareddau a fwynheir gan y gr_p oedran 4 -19 oed.

4.2 Holiaduron

Cynhyrchwyd holiaduron ysgrifenedig yn ddwyieithog a'u dosbarth i groestoriad o deuluoedd ar draws Bro Ddyfi. Dosbarthwyd hwy mewn gwahanol grwpiau cymunedol, dyddiau chwarae a chyfarfodydd cymdeithasol i rieni gyda phlant o oed geni hyd at 19 oed.

Dosbarthwyd cyfanswm o 160 holiadur i rieni lleol i'w llenwi a'u dychwelyd yn ystod y sesiynau - gyda rhai rhieni yn gofyn barn eu plant a oeddynt gyda hwy. O'r rhain, dychwelwyd 148 gydag atebion ar gyfer y mwyafrif o gwestiynau a ofynnwyd.

Holwyd am wybodaeth am ystod o faterion yn cynnwys:

- Ardal lleoliad cartref y teulu
- Oed/rhyw plant
- Y gwasanaethau a ddefnyddir yn bresennol
- Ffactorau ataliol, e.e. costau, cludiant, gwybodaeth ac yn y blaen
- Diddordeb mewn cyrsiau hyfforddi lleol gyda darpariaeth gofal plant
- Diddordeb mewn darpariaeth gofal plant ar benwythnosau
- Diddordeb mewn darpariaeth ar gyfer ieuenctid (ar ôl ysgol / gwyliau)
- Pwysigrwydd gofal plant, gweithgareddau chwarae a chymdeithasol cyfrwng Cymraeg/dwyieithog
- Diddordeb mewn prosiectau chwarae ymestyn allan cymunedol
- Diddordeb mewn defnyddio system gludiant o bentrefi pellennig
- Gwasanaethau i bobl ifanc gydag anghenion ychwanegol
- Syniadau / awgrymiadau am welliannau i'r gwasanaethau presennol
- Unrhyw sylwadau eraill

Rhoddwyd cyfle i roi manylion personol os oedd angen gwybodaeth bellach er dychwleyd y mwyafrif o'r holiaduron yn ddienw.

O'r 148 holadur a ddychwlewyd, roedd 8 yn annarllenadwy – oherywdd bod plant wedi tynnu lluniau / sgriblo arnynt neu roeddynt yn wag ar y cyfan, ac yr oedd 18 pellach wedi eu cymhlethu gan rieni nad oeddynt yn byw yn wardiau etholiadol Machynlleth,

Glantwymyn/Cadfarch a Llanbrynmair er eu bod yn mynychu gwasanaethau yn yr ardal. Ni roddwyd hwy yn yr archwiliad hwn.

Defnyddiwyd cyfanswm o 122 holiadur cymwys i gynrychioli barn rhieni ac maent yn ffurfio rhan o'r dadansoddiad o anghenion lleol.

Canlyniadau'r holiaduron:

O'r 122 o rieni a roddodd wybodaeth, dyma'r canlyniadau a gafwyd:

i.) Cofnododd 57% o rieni 'Machynlleth' fel ardal eu cartref teuluol
Cofnododd 28% o rieni 'Glantwymyn/Cadfarch' fel ardal eu cartref teuluol
Cofnododd 15% o rieni 'Llanbrynmair' fel ardal eu cartref teuluol

ii) Gyda'i gilydd roedd y rhieni yn cynrychioli 271 o blant/pobl ifanc rhwng 0 -19 oed

Nifer yr holiaduron a ddychwelwyd yn cofnodi nifer y plant ym mhob teulu:

1 plentyn	2 blentyn	3 blentyn	4 blentyn	5 blentyn
10	82	25	3	2

O'r 271 plant /pobl ifanc hyn, roedd eu hoedran fel a ganlyn:

0 – 2 oed	2 - 4 oed	4 – 8 oed	8 -12 oed	12 – 19 oed
11	29	87	83	61

Er ein bod wedi gofyn am nodi rhyw ar yr holiadur rhoddwyd yr wybodaeth hon yn anghyson, yn amrywio o roi tic, rhif neu yn syml yn gadael lle gwag. Felly, ni ellir cofnodi'r wybodaeth hon yn gywir.

iii) Cofnodwyd 97% o blant / pobl ifanc fel yn ymwneud â rhyw fath o weithgaredd cymdeithasol wedi'i drefnu yn rheolaidd*. Roedd y gweithgareddau yn cynnwys:

- Meithrinfa Gymunedol / Cylch Meithrin Y Plas
- Clwb ar ôl ysgol
- Clwb Chwarae Gwyliau
- Clwb Ieuenctid
- Cylch Meithrin
- Ti a Fi
- Brownies / Geidiaid / Geidiaid yr Enfys
- Cadetiaid
- Gwerin Y Coed
- Clwb Ffermwyr Ifanc
- Clybiau Ysgol; Urdd, Chwaraeon
- Gwersi Nofio
- Clybiau Chwaraeon

Cofnodwyd 2% o blant fel rhai nad oeddynt yn ymwneud ag unrhyw fath o weithgaredd cymdeithasol wedi'i drefnu.

Cofnododd 1% o rieni dripiau rheolaidd i'r Llyfrgell gyda'u plentyn fel gweithgaredd cymdeithaosl wedi'i drefnu.

** diffiniwyd rheolaidd fel mwy nag unwaith yr wythnos*
iv.) Rhoddwyd ffactorau yn rhwystro mynediad at weithgareddau gofal plant / cymdeithasol fel:

- Cost
- Diffyg gwybodaeth gyfoes
- Cludiant
- Gweithio rownd y plant fel nad oes angen gofal plant
- Rhestr aros am le

v) Roedd 80% o'r holiaduron a ddychwelwyd yn mynegi diddordeb mewn dilyn cyrsiau hyfforddi wedi'u cyflwyno'n lleol gyda darpariaeth gofal plant. Ni nodwyd cyrsiau penodol. Yn ystod y dydd oedd yr amser astudio dewisol. Dywedodd 15 % pellach "efallai" byddai ganddynt ddiddordeb, gyda'r 5% olaf yn dweud na fyddai ganddynt ddiddordeb yn y math hwn o ddarpariaeth.

vi) Byddai 56% yn hoffi gweld gwasanaethau gofal plant ar gael dros y penwythnos yn galluogi rhieni i fynd i siopa heb eu plant. Roedd angen y gwasanaeth hwn yn neilltuol o gwmpas y Nadolig. Dywedodd 28% y byddai hyn 'efallai' o ddiddordeb iddynt tra ni fyddai 16% yn defnyddio gwasanaeth o'r fath.

vii) Nododd 77% o rieni gyda phlant yn y grwpiau oedran 8-12 ac 12-19 oed y byddent yn hoffi gweld mwy o ddarpariaeth ieuenctid ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r haf. Roedd 3% heb unrhyw ddiddordeb mewn defnyddio'r gwasanaethau hyn a dywedodd 20% y byddent "efallai" yn eu defnyddio. Yn ddiddorol, dywedodd 10% o rieni gyda phlant yn y grwpiau oedran iau ddiddordeb hefyd mewn mwy o ddarpariaeth ieuenctid.

vii) Er bod 66% yn cofnodi bod eu cartrefi yn ddwyieithog neu'n rhugl Gymraeg, dim ond 39% oed yn credu ei bod hi'n bwysig bod gan eu plentyn fynediad at weithgareddau gofal plant, chwarae neu gymdeithasol dwyieithog / Cymraeg. Nododd 34% nad oedd y Gymraeg yn cael ei siarad yn eu cartrefi.

viii) Roedd 32% o rieni a ddychwelodd holiaduron yn credu fod angen mwy o weithgareddau chwarae cymunedol ymestyn allan. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth i'r mwyafrif o atebion a gafwyd o ardal Machynlleth lle mae mynediad at weithgareddau yn llai cyfyngedig nag y mae yn y pentrefi cyfagos.

ix) Roedd 25% o rieni yn mynegi diddordeb mewn defnyddio gwasanaeth cludiant a fyddai'n casglu plant / pobl ifanc o'r ardaloedd cyfagos gan ddod â hwy i mewn at weithgareddau chwarae, gofal plant a chymdeithasol wedi'u trefnu'n ganolog a byddent yn barod ar y cyfan i gyfrannu tuag at y costau perthynol.

x) O'r rhai a roddodd wybodaeth am hyn, ystyriwyd bod gwasanaethau yn "ddigonol" ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Fodd bynnag, roedd rhieni a gofnododd fod gan eu plentyn anghenion ychwanegol yn teimlo fod angen mwy o ddarpariaeth yn lleol, gan osgoi teithiau hir i gael gafael ar ddarpariaeth arbenigol. Amlygwyd diffyg gwybodaeth am wasanaethau o'r fath fel pryder gan 2 riant.

xi) Sylwadau, syniadau ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'r gwasanaethau presennol:

Fedra i mo'i fforddio! Biti na fyddwn i!

Os gallem gael help gyda'r costau byddai hynny'n braf.

Ddim yn siwr lle i fynd am wybodaeth

Dim mwy o gynlluniau chwarae Haf am ddim. Bydd yn chwith i ni.

I don't drive so I can't get them to the places they want to go to

Dim digon iddynt ei wneud o gwmpas fan hyn.

Gyda 4 o blant, mae popeth yn ddrud! Disgownt i frodyr a chwiorydd plîs!

Mae'n costio gormod

Mae nofio am ddim yn y gwyliau yn dda.

Dim rhyfedd fod plant yn mynd i drwbwl ffordd hyn, does dim byd iddynt ei wneud, dim sinema, bowlio, na lle iddyn nhw loetran gyda'i gilydd

Ni allan fynd i'r Feithrinfa eto does dim digon o leoedd ar gael

Mae gan fy mab anghenion arbennig ac nid wyf yn gwybod beth sydd ar gael iddo o gwmpas y fan hon. Mae'n diflasu cymaint.

Mae'n rhaid i'r mab edrych ar ôl ei hun ar ôl ysgol pan rwy'n gweithio-mae'n 13 ond dwi'n dal i boeni amdano!

The buses are n't reliable so I don't like her going out at night to Youth Club etc, it's not safe anymore.

Ble wyf i'n cael gwybodaeth am beth sy'n digwydd?

Popeth rhy 'Seisnig' rydym eisiau mwy o weithgareddau Cymraeg

Dim digon iddynt ei wneud

Mae fy merch yn swil iawn a does ganddi ddim hyder – beth sydd yma iddi hi?

Rhy hawdd iddynt gael gafael ar gyffuriau ac alcohol. Rydym yn poeni amdanynt.

Rydym yn byw allan o'r dref ac nid oes unrhyw beth i'w wneud. Ni allant gyfarfod eu ffrindiau yn yr haf – i ble allant fynd?

Mae'n rhy bell i'w gyrru i fynd â hwy i leoedd

Ni all plant chwarae tu allan bellach. Wyddoch chi ddim pwy sydd o gwmpas.

Rydm angen gweithredu nid geiriau, gormod o addewidion y bydd pethau'n digwydd ond nid ydynt, byth. Rydym wedi hen ddiflasu clywed am y peth.

Mae Chwarae Mynediad Agored yn dda –mae'n hwyl ac mae am ddim!

Mae'n mwynhau'r Clwb Ieuenctid ond rhaid i ni fynd ag ef a'i nôl.

4.3 Anghenion plant / a phobl ifanc

Daeth yr holl sylwadau a gafwyd oddi wrth dros 130 o blant a phobl ifanc sy'n byw ym Mro Ddyfi (Machynlleth, Glantwymyn/Cadfarch & Llanbrynmair)

Cynhaliwyd gweithgareddau ymgynghori priodol i oedran gyda'r grwpiau rhyw cymysg o blant 4 -19 oed trwy amrywiaeth o ddulliau yn cynnwys cyswllt wyneb yn wyneb yn cynnwys cwestiynau uniongyrchol, gwerthusiadau ysgrifenedig gan blant / pobl ifanc o brosiectau chwarae blaenorol, trafodaethau cyffredinol gyda phlant a gweithio'n agos gyda darparwyr gwasanaethau plant lleol o oed meithrin i waith ieuenctid.

O'r grwpiau y siaradais â hwy, roedd y mwyafrif yn ymwneud â rhyw fath o ddarpariaeth ar ôl ysgol. Roeddynt yn amlygu nifer o ffactorau a'u rhwystrodd rhag cymryd mwy o ran mewn mwy o weithgareddau cymdeithasol a rhoesant sylwadau am yr hyn oedd yn ddiffygiol yn yr ardal ar gyfer plant a phobl ifanc, yn eu barn hwy. Roedd awgrymiadau yn amrywiol ac yn lawn dychymyg ar draws yr ystod oedrannau.

Nid oedd yr un o'r 130 o blant 4 - 19 oed yr ymgynghorwyd â hwy yn credu fod digon o ddarpariaeth i blant a phobl ifanc ym Mro Ddyfi, gyda nifer sylweddol yn y gr_p oedran uwch yn rhoi un neu fwy o awgrymiadau ar gyfer gwelliant. Roedd barn a fynegwyd gan unigolyn mewn gr_p yn aml yn cael ei heilio gan eraill, efallai un ai i ddangos cefnogaeth i'r awgrym neu oherwydd eu bod ar frys i roi ateb a chael dychwelyd at eu gweithgaredd. Roedd hyn yn neilltuol o wir am y bechgyn, gyda'r merched yn gyffredinol yn cynnig mwy o awgrymiadau ond yna, yn ddiddorol, yn rhoi rhesymau pam na fyddai eu hawgrymiadau yn ddichonadwy yn yr ardal hon.

Mae'r awgrymiadau a amlygir yn y dadansoddiad hwn yn cynrychioli barn y plant a phobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy yn y broses hon er nad ydynt yn ffurfiol rhestr gyflawn o'r awgrymiadau unigol.

Nid oedd yn bosibl i benderfynu barn gyffredinol y bobl ifanc yn y gr_p oedran 16 -19 oed nad ydynt yn mynychu ysgol neu weithgaredd cymdeithasol wedi'i drefnu. Roedd cynrychiolwyr o'r gr_p oedran hwn yn poeni'n neilltuol bod eu sylwadau wedi cael eu mynegi yn y gorffennol ac eto ni wnaethpwyd unrhyw ymdrech i ymdrin â'u hanghenion. Byddai gwaith ymgynghori pellach gyda'r gr_p hwn yn fwy priodol fel rhan o brosiect ymchwil mwy dan arweiniad y gweithiwr prosiect ieuenctid cymunedol. Mae'r wybodaeth ymchwil gyfyngedig gyda'r gr_p targed hwn wedi cael ei chynnwys fodd bynnag a chyfeirir ymhellach at waith ymgynghori a wnaed fel rhan o Arolwg Cyfranogol Cymunedau yn Gyntaf.

Roedd awgrymiadau ar gyfer gwelliant yn cynnwys:

- Gwella cyfleusterau caeau chwarae: siglenni, llithrennau, si-sos / offer a atgyweiriwyd
- mwy o leoedd chwarae am ddim/gyda chymhorthdal, wedi'u trefnu: dyddiau chwarae / cynlluniau chwarae
- gwasanaeth cludiant gwell i"gofleidio" gweithgareddau chwarae / cymdeithasol sy'n bodoli eisoes
- Cyfleusterau mawr, awyr agored, mynediad agored: caeau chwarae antur, traciau BMX
- Cyfleusterau Hamdden: Sinema, llawr sglefrio, parc thema, lle bowlio, peli paent
- Man ‘galw i mewn’ lleol ar gyfer pobl ifanc: caffi rhyngwe, clybiau ieuenctid

- Cefnogaeth ariannol / cyngor i deuluoedd incwm isel i helpu gyda chostau chwarae/gofal plant
- Gwelliannau i ddiogelwch cymunedol i alluogi mwy o chwarae awyr agored / cerdded adref ac yn y blaen
- Mwy o ‘fannau gwyrdd’: caeau chwarae, coedwigoedd hygyrch
- Mwy o weithgareddau chwarae / cymdeithasu wedi'u cyflwyno'n lleol - yn enwedig yn y pentrefi cyfagos
- Tripiau rheolaidd i ffwrdd o'r ardal gyda/heb rieni.

Does dim llawer i'w wneud. Mae'r Clwb Ieuenctid yn iawn os ydych yn byw ym Mach, ond 'da ni ddim.

Rydym eisiau mwy o ddyddiau chwarae fel roedd gennym

Rydych yn mynd i leoedd eraill a gweld stwff grêt fel parciau antur, parciau a lleoedd i blant jyst mynd iddyn nhw. Byswn i'n licio llawr sglefrio ia, lle bowlio, arced, peli paent a sinema. Wedyn, byswn yn hapus!

Byddai'n wych pe bai gennym gaffi rhyngwe neu rywbeth tebyg

Rwy'n hoffi'r Clwb Chwarae Gwyliau ond mae Mam yn dweud na fedrith hi ei fforddio drwy'r Haf

Tydi Mam ddim yn gadael i mi ddod i'r Clwb Ieuenctid achos di'r bws ddim yn dod ar yr adeg iawn i fynd â fi adref yn ôl. Mae'n poeni amdanaf! Ond dwi yn 15 oed!

Rydym eisiau mwy o dripiau, gwersylla, parciau thema, lleoedd c_l…

Rwy'n hoffi gwneud crefftau a bod hefo fy mêts. Dwi'n licio dod i Kidzone.

Rydym yn teimlo ein bod yn cael ein gadael i lawr drwy'r amser. Nid oes unrhyw un yn gwneud dim.

Rydym angen Rheolwr ar gyfer y tîm pêl-droed iau.

Rydym eisiau mwy o dripiau beicio mynydd am ddim.

I want to move away from this dump, I want to live in a big city where there are shops and places to go with my mates

Byddai'n dda pe bai gan Lanbrynmair gae pêl-droed iawn, Gallem helpu i ddysgu'r plant bach.

Mae stwff yn dechrau ond wedyn mae'n stopio yn union fel yr ydych yn dod i arfer ag ef

Mae'n gas gen i fynd adref i d_ gwag ar ôl ysgol. Mae Mam & Dad yn gweithio tan 6.

Mae'r Ysgol Goedwig yn hwyl, dwi wrth fy modd yn mynd yn fudr & dim ots gan Mam! Mwy o sesiynau plîs.

Byddai motorsport & go-karts i blant yn hwyl

Parc sglefrio neis eto

Rydym angen mwy o ddewis

Bydai'n braf os byddai 'Alton Towers' yma ym Mach

Dim ond siarad ydio i gyd beth bynnag. Does dim yn cael ei wneud, byth.

Gormod o 'welshies' yn mynd iddo

Dim llawer i'w wneud yma.

Rwyf eisiau siglen & llithren neis yn y parc

Hoffwn ddod i glwb ar ôl ysgol yn amlach.Mae'n hwyl!

Byddai sinema yn dda

4.4 Llyfr Syniadau a Chynllun Gweithredu Cymunedau yn Gyntaf

Gwahoddodd Llyfr Syniadau Cymunedau yn Gyntaf awgrymiadau gan bobl leol am ddulliau o wella bywyd ym Mro Ddyfi. O'r syniadau hyn datblygwyd cynllun gweithredu fel dogfen waith i gefnogi adfywhau cymunedol. Er mwyn casglu barn ar gyfer yr Arolwg Cyfranogol, cynhaliwyd ymgynghori gyda dros 250 o oedolion a thua 100 o blant drwy ardal Bro Ddyfi gyda phwyslais neilltuol ar gymunedau Bryn Y Gog a Llanbrynmair.

Roedd ffurf yr ymgynghori yn cynnwys cyfweliadau personol, arolygon post, ymarferion gweledigaeth cymunedol a grwpiau ffocws. Cynhaliwyd y gwaith rhwng diwedd 2003 a chanol 2004.

O fewn y Cynllun Gweithredu Ieuenctid, cofnodwyd y sylwadau canlynol am weithgareddau a gwasanaethau i blant a phobl ifanc fel y blaenoriaethau cyntaf i'w hystyried:

- ‘Darparu mwy o waith i bobl ifanc aros yn yr ardal’
- ‘Gofal plant mwy fforddiadwy yn enwedig mewn ardaloedd gwledig’
- ‘Sgiliau i'r bobl ifanc di-waith’
- ‘Annog trosglwyddo busnesau (y to ifanc i gymryd busnes y teulu drosodd)’
- ‘Ehangu Prosiect Plant Cymunedol Machynlleth a chefnogi cyfranogaeth rhieni a'r gymuned’
- ‘Galluogi pobl i fynd i ddigwyddiadau a chyfleusterau allan o'r ardal’
- ‘Parhau i ddatblygu gwyliau’
- ‘Hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r cyfleusterau cymunedol presennol’
- ‘Gwell adeilad i Brosiect Plant Cymunedol Machynlleth’
- ‘Annog lefel gwirfoddoli uwch’
- ‘Gweithiwr ieuenctid amser llawn ar gyfer Bro Ddyfi’
- ‘Mwy o weithgareddau iaith Gymraeg i bobl ifanc’
- ‘Archwilio'r posibilrwydd o agor Clwb Ieuenctid sy'n ymateb i anghenion a dyheadau pobl ifanc’
- ‘Rhywle i bobl ifanc rhwng 10 -18 oed fynd gyda'r nos, yn enwedig yn y gaeaf - ac yna ni fyddent yn ceisio mynd i mewn i'r tafarndai’
- ‘Datblygu a chefnogi darpariaeth gofal plant, cynlluniau cludiant a gwasanaethau ymestyn allan i sicrhau cynhwysiant a hygyrchedd i gyfleusterau chwaraeon a hamdden (yn cynnwys ymestyn oriau agor yn y Ganolfan Hamdden)’
- ‘Cae bob tywydd llawn - o bosibl, prosiect ar y cyd rhwng Ysgol Bro Ddyfi, Clwb Rygbi Machynlleth a Chlwb Pêl-droed Machynlleth. Byddai hwn i'w ddefnyddio gan yr holl gymuned ac o fudd iddi.
- ‘Cyfleusterau gofal plant i rieni ifanc sydd eisiau cael mynediad at hyfforddiant’

- ‘Ysgol Bro Ddyfi i ddod yn fwy o adnodd cymunedol’
- ‘Gwneud defnydd o'r cyn siop ym Mryn y Gog am unrhyw un o'r canlynol: Canolfan galw i mewn, cyfleusterau hyfforddi neu creche
- ‘Gwell mynediad at TG i'r rhai tu allan i Fachynlleth’
- ‘Hyfforddiant anffurfiol ar gyfer pobl ifanc fregus’
- ‘Codi ymwybyddiaeth o werth addysg feithrin’
- ‘Defnyddio'r awyr agored ar gyfer chwarae ac addysg anffurfiol, yn cynnwys colegau yn cynnig astudiaethau amgylcheddol a grwpiau celfyddyd gain’
- ‘Datblygu ac annog clybiau, cymdeithasau, cylchoedd meithrin ac yn y blaen sy'n gweithredu (neu'n dymuno gweithredu) yn ddwyieithog’
- ‘Angen cefnogaeth ar rieni tu allan i Fachynlleth’

Mae Arolwg Cyfranogol llawn Cymunedau yn (AC) ar gael i'w weld gan y cyhoedd, fodd bynnag mae'r detholiad o bwyntiau nodedig yn rhoi manylion y materion allweddol am wasanaethau i blant a phobl ifanc.

Dywedodd nifer o rieni a gymerodd ran yn y AC eu bod yn teimlo, ers cael plant, nad oedd o werth chwilio am waith gan fod costau gofal plant, allan o gyflogau net isel o swyddi cyflog isel, yn eu gadael heb fawr o incwm gwario gan eu gadael yn teimlo eu bod yn "well allan" yn byw ar fudd-daliadau. Roedd anfantais economaidd yn cael ei chadarnhau gan eraill drwy'r broses gan ddyfynnu swyddi cyflog gwael, ychydig o gyfleoedd gwaith a chostau byw uchel fel elfennau allweddol mewn anfantais wledig.

Mynegwyd pryderon hefyd am y diffyg cyffredinol mewn gofal plant yng nghefn gwlad ond yn benodol y nifer cyfyngedig o leoedd cyn-ysgol yn y Feithrinfa Gymunedol sydd yn llawn, gyda'r galw am le yn llawer mwy na'r nifer o leoedd ar gael. Fodd bynnag, gyda diffyg adeiladau cyhoeddus i adleoli gwasanaethau gofal plant allweddol yn yr ardal, credwyd nad oedd y sefyllfa yn debygol o wella.

Roedd y Ganolfan Plant Integredig arfaethedig yn cynnig gobaith i ymdrin â rhai o'r pynciau a nodwyd uchod ac fe'i chroesawyd gan y gymuned ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd rhai aelodau o bentrefi cyfagos yn teimlo mai adnodd ychwanegol i Ysgol Gynradd Machynlleth yn unig fyddai hon ac nid oeddynt yn gweld ei pherthnasedd i'w cymuned ei hunan.

Holwyd aelodau o'r Clwb Ffermwyr Ifanc yn y broses hon ac yr oeddynt yn pryderu yn neilltuol am y rhaniadau cynyddol yn y gymuned a achoswyd gan yr iaith Gymraeg mewn nifer o feysydd o dai i weithgareddau lleol. Roedd diffyg parodrwydd ymddangosiadol ar ran y mewnfudwyr Saesneg eu hiaith, cynyddol, i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ac yr oedd hyn yn achosi rhaniadau yn y pentrefi cyfagos yn enwedig. Roedd yn amlwg fod pobl ifanc oedd yn mynychu'r gr_p hwn yn mwynhau bywyd cymdeithasol prysur, roedd ganddynt gylch eang o ffrindiau ac yr oeddynt yn cymryd rhan lawn mewn bywyd cymunedol cefn gwlad. Dywedodd pobl nad oeddynt yn siarad Cymraeg fodd bynnag, er byddent yn mwynhau manteision gr_p o'r fath, roeddynt yn teimlo eu bod yn cael eu cau allan oherwydd eu diffyg gwybodaeth o'r iaith Gymraeg ac felly roeddynt yn dewis peidio mynychu o gwbl.

Roedd angen gwell defnydd o gyfleusterau a oedd yn bodoli'n barod ac y gellid eu defnyddio gan grwpiau a oeddynt yn ceisio ymestyn eu darpariaeth bresennol neu ddatblygu gwasanaethau newydd i adfywhau ardaloedd penodol yn y gymuned h.y. Cyrsiau TG, canolfan galw i mewn, cyfleusterau creche ac yn y blaen

Roedd aelodau'r gymuned yn gwerthfawrogi nad oedd llawer o gyfleoedd i bobl ifanc gael gafael ar weithgareddau ysgogol a diddorol ac felly roedd hynny'n cynyddu'r nifer o bobl ifanc oedd yn 'loetran' ar y stryd ar ôl iddi dywyllu. Y farn gyffredinol oedd os oedd pobl ifanc yn yr ardal yn cael rhywbeth adeiladol i'w wneud gyda'u hamser yna ni fyddent yn troi at ymddygiad gwrthgymdeithasol. Barn y bobl ifanc ar yr adeg hon oedd eu bod yn teimlo nad oedd unrhyw un yn gwrando arnynt ac nad oedd eu hanghenion yn cael eu hystyried.

Roedd llawer o bobl ifanc wedi'u dadrithio gyda'r diffyg gwaith a chyfleoedd addysg ym Mro Ddyfi ac o'r herwydd wedi allfudo i chwilio am gyfleoedd gwell. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn y boblogaeth leol iau gyda dim ond ychydig o bobl ifanc medrus yn aros yn yr ardal.

Dylid datblygu gweithgareddau hamdden awyr agored gan fod yr amgylchedd naturiol fel coedwigoedd a chaeau ac yn y blaen yn adnoddau a oeddynt yn cael eu tanbrisio a byddent yn rhoi cyfleoedd chwarae a dysgu rhagorol i blant a phobl ifanc.

5 Canfyddiadau Allweddol

O'r gwaith ymgynghori a wnaed hyd yn hyn gan nifer o asiantaethau, mae nifer o adroddiadau manwl wedi nodi anghenion pobl ifanc ym Mhowys yn gyffredinol ac yn fanwl mewn mannau - Bro Ddyfi. Mae'r rhain yn cynnwys:

'Archwiliad sirol o wasanaethau plant a phobl ifanc' gan Bartneriaeth Fframwaith Powys Plant & Phobl Ifanc

Dadansoddiad anghenion 'Cludiant i Bobl Ifanc' gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys

'Arolwg Cyfranogol Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi' & 'Chynllun Gweithredu Ieuenctid'

'Strategaeth Gymunedol Powys'

Gwerthusiad Pen wythnos Ymgynghori Ieuenctid Bro Ddyfi wedi'i hyrwyddo gan Wasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir Powys ac Achub Plant, wedi'i ariannu gan Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi.

Canolfan Plant Integredig Bro Ddyfi - adroddiadau gwerthuso Chwarae Mynediad Agored

a hwn a gynhaliwyd yn lleol:

'Archwiliad a dadansoddiad angen o weithgareddau a gwasanaethau i blant a phobl ifanc 0-19 oed ym Mro Ddyfi (Machynlleth, Glantwymyn / Cadfarch a Llanbrynmair)' gan Brosiect Plant Cymunedol Machynlleth yn cynnwys Canolfan Plant Integredig Bro Ddyfi ac wedi'i ariannu gan Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi.

Gellir llunio rhestr o ffactorau sy'n atal cyfranogaeth weithredol yn y grwpiau 0-19 oed o'r ymchwil a'u datblygu er mwy cynnwys ac ysgogi plant a phobl ifanc ym Mro Ddyfi.

Y peth mwyaf nodedig o'r gwaith ymgynghori yw'r cyfyngiadau amlwg ar fynediad at wasanaethau. Er, ar yr olwg gyntaf, mae'n ymddangos bod ystod resymol o weithgareddau chwarae, gofal, hamdden a chymdeithasol o ansawdd uchel yn weithredol yn yr ardal, nid ydynt yn cael eu cefnogi'n llawn gan y gr_p oedran 0 -19 oed.

Nid oedd llawer o'r bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymgynghori yn ymwybodol o 7 Amcanion Craidd i blant a'r 10 hawl i bobl ifanc gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roeddynt yn credu nad oedd unrhyw beth wedi digwydd ar lefel leol i fodloni eu hanghenion, er bod sawl ymdrech wedi digwydd i nodi'r rheiny a mynegwyd teimlad cryf o rwystredigaeth.

Mae'n ymddangos mai'r canlynol yw'r prif ffactorau sy'n achosi rhwystr:

- **Cost:** gofal plant, gweithgareddau cymdeithasol, costau teithio rhy uchel oherwydd swyddi lleol incwm isel, dibynadwyaeth ar fudd-daliadau.

- **Cludiant**: rhwydwaith gludiant annibynadwy / heb ei chydlynu, ynysigrwydd cefn gwlad, costau

- **Diogelwch Cymunedol**: Plant a phobl ifanc yn methu mwynhau rhyddid chwarae awyr agored, ofnau am ddiogelwch personol wrth gerdded adref ar ôl Clybiau ag ati

- **Dewis**: Diffyg dewis o weithgareddau cymdeithasol yn enwedig i blant 14-19 oed.

- **Argaeledd**: Nifer cyfyngedig o leoedd gofal plant cofrestredig, ardal cyflwyno.

- **Iaith:** Yn bwnc i'r cymunedau Cymraeg a Saesneg fel y'i gilydd gyda theimladau o wahaniaethu ar y ddwy ochr.

- **Datblygiad:** Nifer annigonol o staff lleol yn datblygu prosiectau i fodloni'r anghenion a nodwyd Diffyg cynnydd gwirioneddol gyda "chynlluniau gweithredu" ac "ymgynghoriadau" - dim cyfranogaeth wirioneddol gan y plant a phobl ifanc heibio i'r pwynt hwn

- **Cynaladwyedd**: Prosiectau yn cael eu dechrau ond heb eu cynnal, pobl ifanc yn cael eu dadrithio

- **Allfudo**: Pobl ifanc 16-19 oed yn gadael yr ardal i geisio gwaith/hyfforddiant


Cost
Diogelwch Cymunedol
Cludiant
Pynciau allweddol i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd ym Mro Ddyfi
Dewis
Datblygiad
Iaith
Cynaliadwyedd
Allfudo

6 Argymhellion i'w gweithredu

Mae'r archwiliad a'r dadansoddiad anghenion lleol hwn yn awgrymu, er bod ystod o weithgareddau a gwasanaethau ar gael i blant a phobl ifanc rhwng geni a 19 oed ym Mro Ddyfi, mae angen mwy o waith i wneud y gorau o'r ddarpariaeth sy'n bodoli. Mae nifer o ffactorau wedi cael eu hadnabod, dro ar ôl tro, sydd yn rhwystro'r gr_p oedran targed a'u teuluoedd rhag defnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt, i bob pwrpas. Er mwyn bodloni anghenion y gymuned a nodwyd, rhaid cymryd cyfres o fesurau.

- **Gweithiwr leuenctid Cymunedol Ymestyn Allan**

Byddai cyflogi gweithiwr o'r fath yn sicrhau fod y gymuned ehangach yn gallu cael gafael ac elwa o ystod o wasanaethau chwarae, cymdeithasol a gofal plant. Ar hyn o bryd mae'n ymddangos fod bylchau yn y ddarpariaeth chwarae i blant rhwng 4-11 oed ym mhentrefi Llanbrynmair a Glantwymyn yn ystod gwyliau'r haf ac i ryw raddau ar ôl ysgol. Er byddai'n anodd sicrhau effeithlonrwydd costau wrth ddatblygu prosiectau newydd, oherwydd y boblogaeth denau yn y gr_p oedran hwn yn ogystal â materion cludiant, serch hynny mae angen darparu cyfleoedd digonol i gynnwys y bobl ifanc hyn mewn profiadau chwarae a chymdeithasol cynhwysol, o ansawdd da. Er enghraifft, byddai'n fwy cost effeithiol i sefydlu rhwydwaith cludiant gydlynol i roi darpariaeth "gofal cofleidiol" i deuluoedd sy'n gweithio, yn Llanbrynmair a Glantwymyn, drwy ddefnyddio'r gwasanaethau ar ôl ysgol sy'n bodoli ym Machynlleth. Byddai cynlluniau chwarae gwyliau wedi'u cyflwyno'n lleol gydag ystod o weithdai yn cynnwys chwarae tu mewn a thu allan ynghyd â mwy o weithgareddau chwarae ar ôl ysgol fel Ysgol Goedwig yn galluogi plant i gymdeithasu gyda'u cyfoedion ac yn rhoi man cyfarfod diogel iddynt fwynhau gweithgareddau corfforol ysgogol, yn eu hannog i fod yn yr awyr agored ac i ffwrdd o'u PCs a gemau consol. Byddai hyn yn gostwng y lefelau o ynysigrwydd cefn gwlad a deimlir gan y gr_p oedran hwn a gall fod o fudd cymdeithasol i rieni pe gellid eu hannog i gymryd rhan yn y gweithgareddau gyda'u plant.

Mae pobl ifanc yn yr ystod oedran 12-19 oed hefyd yn cael anhawster cael gafael ar weithgareddau cymdeithasol yn ardaloedd mwyaf gwledig Bro Ddyfi ac mae angen cryn waith gyda'r gr_p hwn i osgoi dadrithiad gyda'r ardal ac allfudiad yn nes ymlaen. Mae angen mwy o waith ar gyfranogaeth yn y pentrefi i benderfynu'r ffordd orau o fodloni eu hanghenion a sut i oresgyn rhai o'r rhwystrau a nodwyd yn y dadansoddiad angen hwn o ran cludiant, tai, mynediad at wybodaeth a'r materion iaith a brofir gan y cymunedau Cymraeg a Saesneg iaith gyntaf.

Byddai creu clybiau ieuenctid ymestyn allan yn Llanbrynmair a Glantwymyn yn darparu gweithgareddau dwyieithog a hollol gynhwysol i bobl ifanc waeth beth fo'u hiaith, gallu na chefndir cymdeithasol yn ffordd o gynnwys pobl ifanc a rhoi gwasanaethau wedi'u cyflwyno'n lleol iddynt. Byddai angen darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ddigonol efallai gyda gweithdai rheolaidd neu sesiynau "gawl i mewn" gan grwpiau fel Gyrfaoedd Cymru, MAYP, CAMAD a cholegau/ darparwyr hyfforddiant lleol. Dylai'r ddarpariaeth ieuenctid bresennol ym Machynlleth gael ei hailadrodd yn y pentrefi ond gyda digwyddiadau cymunedol rheolaidd yn dod â chymunedau ynghyd am ryngweithio cymdeithasol pellach e.e. gigs cerddorol, digwyddiadau chwaraeon, tripiau ac yn y blaen.

Mae angen adolygiad o'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus lleol i gydlynu â'r ddarpariaeth bresennol. Byddai amserlenni cliriach, gwell amseru gwasanaethau a chynyddu amlder yn gwella mynediad at wasanaethau.

- **Gwella cyfleusterau lleol**

Er bod hyn yn anoddach i'w gyflawni, mae'n dal i fod yn uchel ar ‘restr dymuniadau’ pobl ifanc Bro Ddyfi. Mae diddordeb mewn cyfleusterau hamdden ar raddfa fawr wedi cael ei fynegi'n agored gan blant 8 -19 oed yn ogystal â'r gymuned ehangach a fyddai'n croesawu cyfleusterau gwell i bobl ifanc, mae'n ymddangos, i'w ‘cadw oddi ar y stryd’. Dyma rai o'r awgrymiadau mwyaf poblogaidd:

- Canolfan Sglefrio
- Sinema
- Bowlio Pinnau
- Arcêd Gemau
- Parc Thema
- Maes chwarae antur
- Cae chwarae bob tywydd
- Caffi Rhyngwe
- Peli paent
- Go Karts
- Cylch beicio mynydd / traciau llaid
- ‘Mannau gwyrdd’ mwy cyffrous
- Cyfleusterau caeau chwarae gwell

Er gallai rhai o'r awgrymiadau fod yn bodoli ar un ffurf neu'i gilydd mewn mannau ym Mro Ddyfi (cylchoedd beicio mynydd, cae chwaraeon, cyfleusterau buarth chwarae) nid ydynt ar gael yn rhwydd i holl aelodau'r gymuned. Byddai caffi rhyngwe yn fenter gymdeithasol ddelfrydol a gallai'r gwelliannau i ‘fannau gwyrdd’ gael eu cefnogi gan dirfeddianwyr / perchnogion coedwigoedd lleol. Fel mesur ‘hanner ffordd’, gellid cyflwyno Clwb/Nosweithiau Ffilm yn dangos DVDs newydd eu rhyddhau gyda byrbrydau iach yn cael eu darparu er mwyn ail-greu profiad sinema er byddent yn dangos ffilmiau a fyddent wedi bod allan yn y sinema am beth amser.

Mae parciau thema a chyfleusterau hamdden mawr ar y cyfan yn parhau i fod yn ‘anghyraeddadwy’ ac ‘afrealistig’ i'r gymuned

Er bod y syniadau a amlinellir uchod yn wir yn annhebygol o ymddangos ym Mro Ddyfi yn y dyfodol agos, serch hynny, dylai pobl ifanc gael cynnig cyfleoedd i ymweld â chyfleusterau o'r fath a gallai rhan o rôl Gweithiwr Ieuenctid Cymunedol Ymestyn Allan fod i hyrwyddo tripiau rheolaidd i blant 8 -19 oed fel rhan o brosiect aml-asiantaethol yn cynnwys darparwyr gwasanaeth plant lleol. Byddai hynny yn lleihau'r pwysau gan rieni sy'n teimlo bod tripiau o'r fath yn rhy ddrud pan fydd costau teithio a mynediad yn cael eu cyfrif, ac nid ydynt yn hawdd i'w trefnu ar gludiant cyhoeddus os bydd mynediad i gar yn gyfyngedig. Byddai rhieni yn fwy parod i gyfrannu tuag at gostau gr_p gostyngol na cheisio dod o hyd i'r holl swm am drip "unigol".

Gellid adolygu canllawiau chwarae mynediad agored i ystyried diffyg hygyrchedd gweithgareddau y mae pobl ifanc yn eu mwynhau yn yr ardal hon a gellir estyn hynny i gynnwys tripiau wedi'u trefnu i safleoedd lle gellid cyflwyno chwarae mynediad: h.y. ymweliad â Pharc Antur yn Wrecsam neu yn fwy lleol, i draciau beiciau mynydd neu goedwigoedd Ysgol Goedwig a fyddai’n golygu cludo pobl ifanc i leoliad y gweithgaredd.

- **Cefnogaeth i wasanaethau presennol Bro Ddyfi**

Mae nifer fawr o ddarparwyr chwarae, hamdden a chyfleodd cymdeithasol wedi cael eu nodi yn yr archwiliad hwn. Mae problem gyffredin yn amharu ar lawer o'r prosiectau a fyddent o les parhaol i'r bobl ifanc costau.

Mae llawer o'r grwpiau sector gwirfoddol bychain mewn sefyllfa dda i gyflwyno rhai o'r amcanion allweddol a osodir allan strategaethau a chynlluniau gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn aml, ond nid ydynt yn derbyn y gefnogaeth ariannol sydd ei hangen i hyrwyddo'r gwaith cyflwyno. Adeiladau; staff lleol, profiadol, dwyieithog gyda gwiriadau SCT; offer/adnoddau chwarae; mae systemau gweinyddol a chysylltiadau cymunedol i gyd ar gael ac eto, ni wneir y defnydd gorau ohonynt oherwydd y cyfyngiadau ariannol ar y trydydd sector.

Mae angen meithrin gwell gweithio ar draws sectorau er mwyn i fudiadau sector gwirfoddol gynorthwyo gyda chyflwyniad darpariaeth chwarae / gofal lleol. Rhaid cymryd agwedd gydlynol tuag at gynllunio prosiectau a dylid ymgynghori â phartneriaid yn y broses o wneud penderfyniadau. Dylid cynnig cefnogaeth, cyngor ac anogaeth i ddatblygu gwasanaethau sy'n bodoli eisoes.

Mae cynlluniau chwarae gwyliau, gwasanaethau llyfrgelloedd teganau a pheth darpariaeth ieuenctid (e.e. gwasanaethau cyngor iechyd rhywiol) yn derbyn arian statudol sylweddol mewn ardaloedd eraill yng Nghymru. Ym Mro Ddyfi fodd bynnag, mae'r gweithgareddau hyn yn llai oherwydd diffyg arian digonol. Mae angen mwy o gytundebau lefel gwasanaeth blynyddol i osgoi'r broses hir o wneud ceisiadau ariannol ac wedyn y "croesi bysedd" sydd yn digwydd wrth gynllunio prosiectau chwarae. Bydd prosiectau a gefnogir yn y modd hwn wedyn yn gallu cynnig gwasanaethau fforddiadwy - heb angen gorfod pasio'r costau ymlaen i rieni, sydd â llawer ohonynt yn dioddef caledi ariannol yn barod.

Mae mynediad at wybodaeth budd-daliadau clir a chryno yn gyfyngedig a gall yr wybodaeth fod yn anghyson. Mae rhieni angen mwy o gefnogaeth gyda sgiliau sylfaenol ac adeiladu hyder, i'w galluogi hwy i geisio'r cyngor y maent eu hangen. Mae Credydau Treth Teuluoedd mewn Gwaith wedi profi o fudd i rai wrth greu mwy o broblemau nag y maent yn eu datrys i eraill.

- **Cynhwysiant**

Dylid ystyried gwelliannau i'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol i sicrhau fod pob math o weithgareddau chwarae, gofal a hamdden yn hygyrch i bawb. Wrth ystyried anghenion corfforol pobl ifanc, mae'n hanfodol darparu staff cefnogi arbenigol pan fo'u hangen i alluogi pobl ifanc i gael y boddhad a'r lles mwyaf o'r gweithgaredd. Mae angne i ddarparwyr gwasanaeth fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i ddarparu gweithgareddau chwarae cynhwysol ac mae angen arolygu lleoliadau yn fewnol/allanoli archwilio eu harferion gwaith.

Mewn ystyr ehangach dylai'r term ‘cynhwysiant’ gynnwys integreiddio'r iaith a diwylliant Cymraeg a Saesneg yn ogystal â rhai eraill. Siaredir y ddwy iaith ym Mro Ddyfi, gan ei gwneud yn gymuned wirioneddol ddwyieithog ac mae'n bwysig parchu dewisiadau iaith beth bynnag ydynt hwy. Dylid gwerthfawrogi a datblygu staff a gwirfoddolwyr dwyieithog. Dylai pobl ifanc dwyieithog sy'n gadael yr ysgol gael eu hannog i wneud y gorau o'u

sgiliau, gan aros yn yr ardal i fanteisio ar y diffyg staff gwaith chwarae/ gofal plant dwyieithog sydd yno a dylid cynnig cyfleoedd hyfforddi priodol iddynt yn lleol.

- **Diogelwch Cymunedol**

Gobeithio y gellir cyflwyno mwy o fesurau diogelwch i warchod aelodau bregus cymuned Bro Ddyfi, gyda'r cynnydd diweddar yn nifer y swyddogion cymunedol yn yr ardal.

Dylid cefnogi rhieni i amcangyfrif y risg wrth ystyried gweithgareddau chwarae. Mae angen mwy o ymwybyddiaeth i gynnig y sicrwydd fod chwarae awyr agored heb oruchwyliaeth yn lles i blant dros 8 oed a bod y risg o niwed sylweddol yn gyfyngedig.

Mae angen ymdrin â bwlio yn llawn yn yr ysgolion, colegau a grwpiau cymunedol gyda pholisïau "chwythu chwiban" yn ofynnol law yn llaw â pholisïau diogelu plant.

Fel awgrymwyd gan fachgen 18 oed yn Ysgol Bro Ddyfi yn ystod y broses ymgynghori:

'Rhowch chi gae pêl-droed iawn i ni yn Llanbrynmair ac mi wnawn ni edrych ar ôl y plant iau a dysgu nhw sut i chwarae'n iawn'

Mae'r ffurf hon o fentora a chefnogaeth cymheiriaid i'w annog a chyda cefnogaeth Gweithiwr Ieuenctid Cymunedol Ymestyn Allan yn gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaeth ieuenctid, byddai'r neges hon yn gallu cael ei hatgyfnerthu ym mhob ardal.

Mae pobl ifanc angen eu hysgogi a chael mynediad at ddarpariaeth ieuenctid briodol, a hebddi maent yn debygol o ddiflasu ac ymddieithrio.

- **Dewis**

Dro ar ôl tro roedd plant a phobl ifanc yn mynegi eu hanfodlonrwydd gyda'r dewisiadau oedd ar gael iddynt yn lleol i fwynhau gweithgareddau chwarae, hamdden a chymdeithasol. Mae angen dewis ehangach o ddarpariaeth a'i chyflwyno lle bo'i hangen.. Rhestrwyd diddordebau'r grwpiau 8-19 oed ac yr oedd lefel galonogol o gyfranogaeth mewn gweithgareddau penodol yn cynnwys:

- Chwarae pêl-droed / rygbi
- Chwarae pêl-rwyd
- Celf & Chrefft
- Nofio
- Gweithgareddau TG
- Beicio
- Drama
- Cerddoriaeth / Dawns
- Gemau cyfrifiadurol

Nododd pobl ifanc fodd bynnag, fod eu cyfleoedd i gymryd rhan yn y diddordebau a hobïau hyn yn gyfyngedig a gofynnodd rhai am fwy o sesiynau yn darparu'r gweithgareddau ychwanegol canlynol:

- Coginio
- Ysgol Goedwig - adeiladau den

- Dylunio gemwaith
- Rafftio/ Can_io
- Marchogaeth
- Peli paent
- Saethyddiaeth
- Gweithdai DJ
- Sgiliau syrcas
- Beiciau mynydd / BMX / Motocross / Gwaith cynnal a chadw beiciau
- Cymdeithasu - cyfarfod ffrindiau, sgwrsio, loetran

O ystyried y cynnydd parhaus yn y ffigyrau gordewdra plant, mae'n ddiddorol nodi felly, o gael y cyfle, byddai llawer o'r bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy yn y broses hon yn cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau corfforol.

Gallai sesiynau chwarae mynediad agored ateb yr angen hwn mewn rhyw ffordd, o bosibl yn cydweithio â'r Gwasanaeth Llyfrgell Deganau neu'r Gwasanaeth Ieuenctid er awgrymir adolygiad o'r canllawiau ar gyfer tripiau i safleoedd cyflwyno. Gyda chreu swydd Gweithiwr Ymestyn Allan Ieuenctid Cymunedol , gellid cynnwys pobl ifanc ar draws Bro Ddyfi wrth gynllunio gweithgareddau o'r fath a byddai'n sicrhau bod gweithdai yn cael eu cyflwyno ym mhob ardal.

Nid oes unrhyw grwpiau Sgowtiaid, Beavers na Cubs yn yr ardal yn dilyn y pwyslais diweddar ar "asesiad risg". Roedd arweinwyr yn teimlo fod hyn yn gweithio yn erbyn ethos eu grwpiau a bod y "gwaith papur" yn rhwystr i chwarae awyr agored, gyda'r pwyslais ychwanegol yn cael ei roi ar y risgiau perthynol. Mae llawer o arweinwyr "newydd" potensial yn anfodlon cymryd y cyfrifoldeb. Dylai mwy o hyfforddiant/cefnogaeth fod ar gael yn lleol i arweinwyr potensial.
Pwyntiau Gweithredu Allweddol:

- **Gweithiwr Ieuenctid Ymestyn Allan i Gymunedau**

Gwneud cais am arian ar gyfer y swydd– gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau lleol
Gweithio gyda chymunedau i ail-gysylltu pobl ifanc gyda'r ddarpariaeth bresennol
Sefydlu darpariaeth newydd i lenwi'r bylchau a nodwyd h.y. Prosiectau Clwb Ieuenctid
Trefnu tripiau i blant lleol, pobl ifanc a'u teuluoedd
Hyrwyddo gweithdai cyngor yn y cymunedau lleol; gyrfaoedd, MAYP, CAMAD, hyfforddiant ayyb
Meithrin dwyieithrwydd yn y ddarpariaeth bresennol - sicrhau fod cynhwysiant llawn yn cael ei gynnig
Darparu mwy o ddarpariaeth chwarae/cymdeithasol i blant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol
Gweithio gyda ICC & grwpiau lleol i hybu'r gwasanaethau sydd ar gael yn lleol
Datblygu darpariaeth chwarae ymestyn allan – cynlluniau chwarae, chwarae mynediad agored, diwrnodau chwarae ayyb

- **Gwella & cydlynydd rhwydwaith cludiant cyhoeddus**

Lobïo am newidiadau yn yr amserlenni
Gweithio gyda grwpiau lleol wrth gynllunio llwybrau teithio/amseru

Symlhau amserlenni - gwybodaeth glir, gryno
Gwella mynediad at wybodaeth – dosbarthu amserlenni drwy grwpiau cymunedol / ICC
Mynediad at fws mini cymunedol

- **Gwella cyfleusterau lleol**

Caffi Rhyngwe? Lle "galw i mewn" i ieuenctid
Ceisio arian i ddatblygu caeau chwarae awyr agored / Astroturf / ‘mannau gwyrdd’
Clybiau Ffilm yn benodol i bobl ifanc
‘T_ Hanner Ffordd’ – trefnu tripiau i leoedd lle mae cyfleusterau gwell *ar* gael
Y Plas? Canolfan Gymunedol? Campws Cymunedol? Prosiect Braenaru?

- **Cynhwysiant**

Mwy o bwyslais ar gyfle cyfartal (integreiddio Cymraeg & Saesneg yn well)
Parch at iaith a diwylliant - cymuned ddwyieithog
Cefnogi prosiectau ymestyn allan rhianta Ysgol Cedewain - hybu'n llawn
Datblygu mwy o ddarpariaeth chwarae mwy ‘cynhwysol’ (Chwarae Sir Drefaldwyn)

- **Diogelwch Cymunedol**

Cefnogaeth mentor / cymheiriaid mewn lleoliadau, drwy ysgolion, grwpiau cymunedol (Gweithiwr Ymestyn Allan)
Heddlu lleol yn gweithio *gyda* grwpiau cymunedol - mwy o bresenoldeb gweledol
Mwy o gynhwysiant cymdeithasol gyda phobl ifanc - yn rhoi mwy o ymwneud uniongyrchol

- **Cost**

Lobïo i sicrhau fod Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r awdurdod lleol yn cydweithio wrth weithredu strategaethau *(ysgrifbinnau a phyrsiau yn gweithio gyda'i gilydd)* Gall y sector gwirfoddol gyflawni ond mae angen arian
Angen mwy o gefnogaeth i ddarparwyr lleol i weithredu mentrau ar lawr gwlad.
Cefnogaeth ariannol i ddarparwyr yn lleihau'r effaith ar deuluoedd lleol- gwasanaethau mwy hygyrch
Gwybodaeth eglurach am fudd-daliadau, cefnogaeth i deuluoedd incwm isel

Gwasanaethau Gwell
i
Blant & Phobl Ifanc ym Mro Ddyfi

Darpariaeth fforddiadwy

Cludiant Cydlynol

Mwy o ddewis

Cyfleusterau gwell



Gweithredu

Dim geiriau

Cymunedau diogelach

Mwy o gefnogaeth i ddarparwyr

Cynhwysiant

Gweithiwr Ieuenctid Cymunedol
Ymestyn Allan

7 Casgliad

Mae'n amlwg yn glir fod gan Llywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad cryf i feithrin plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae gweithrediad parhaus cynlluniau i leihau tlodi plant, cynyddu cyfleoedd am ddarpariaeth chwarae, cefnogaeth i gynlluniau gofal plant, gwella mynediad at wasanaethau a pharchu persbectif ieuenctid, oll yn awgrymu symudiad at ddealltwriaeth wirioneddol o bwysigrwydd cyfleoedd chwarae, hamdden a chymdeithasol i blant a phobl ifanc o'u genedigaeth hyd at 19 oed yng Nghymru. Gyda'r gefnogaeth ychwanegol a roddir yn awr gan Gronfa'r Loteri Fawr i ddatblygu a chynnal darpariaeth gofal plant / chwarae, a thrwy weithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol i sicrhau cyllid, dylai darparwyr gwasanaeth fod mewn sefyllfa dda i gyflwyno'r nodau allweddol fel y gosodir hwy allan yn y CGPCh a strategaethau cysylltiedig ar lefel llawr gwlad.

Mae'n bwysig cofio, fodd bynnag, mai'r hyn sydd ei angen yn awr yw cyflawni. Ni ellir tanbrisio gwerth ymgynghori, ond mae'n hollbwysig ein bod yn gwrando ar yr hyn a ddywedir wrthym a gwneud cynnydd mewn hyrwyddo newid i blant a phobl ifanc yn ein cymunedau. Yn ystod yr archwiliad hwn a dadansoddiad angen hwn deuthum droeon ar draws apathi ac ymdeimlad o 'beth yw'r pwynt, nid oes unrhyw beth yn cael ei wneud amdano, byth'. I leihau dirnadaeth ymddangosiadol y cyhoedd o Lywodraeth Cynulliad Cymru, yr Awdurdod Lleol, Cymunedau yn Gyntaf ac asiantaethau o'r fath fel 'siopau siarad' yn unig. Mae angne camau gweithredol uniongyrchol yn awr i gefnogi anghenion yr ardal. Rydym angen adeiladu ar yr wybodaeth sydd ar gael a sicrhau ein bod oll yn mabwysiadu agweddau cwbl gydlynol ac ystyrlon tuag at adfywhau cymunedol. Roedd llawer o'r pynciau a nodwyd yn cael eu hailadrodd ym mhob ardal lle'r ymgynghorwyd ac maent wedi eu cofnodi o'r blaen ac ers hynny mewn archwiliadau a gwerthusiadau, sy'n awgrymu'r dyfnder teimlad sydd ym Mro Ddyfi.

Mae angen llawer mwy o waith cymunedol uniongyrchol i sicrhau dealltwriaeth eang o fentrau a strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Pryder yw nodi nad oedd y mwyafrif o blant a phobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy yn ymwybodol o'r 'Hawl Cyffredinol'. Roedd canran uchel o rieni a gyfrannodd at yr archwiliad hwn heb ddeall rôl Cymunedau yn Gyntaf yn llawn na'r cysyniad o rwydwaith y Ganolfan Plant Integredig.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, gwelir fod nifer o ddatblygiadau diddorol yn cael eu hystyried ar gyfer Bro Ddyfi, ac mewn amser, dylent ddelio â rhai o'r anghenion a nodwyd yn y dadansoddiad hwn. Gobeithir, gyda'r dystiolaeth a gasglwyd a'i llunio i gynlluniau gweithredu manwl, gyda chefnogaeth deddfwriaeth LlCC a chyda digon o arian i gyflwyno gwasanaethau, dylid rhoi cymorth i ddarparwyr gwasanaeth i fodloni anghenion teuluoedd, plant a phobl ifanc yn yr ardal. Mae'n glir bod y gwaith sydd ei angen yn awr yn gorwedd wrth galon y gymuned gyda'r plant a'r bobl ifanc y mae'r nodau ac amcanion yn berthynol iddynt. Gyda'r angerdd ac ymrwymiad i'w gwaith a ddangoswyd gan y grwpiau sector gwirfoddol wedi'u cyfuno gyda gwaith datblygu strategol Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc Powys ac ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae dyfodol darpariaeth chwarae, gofal a chymdeithasu ym Mro Ddyfi yn edrych yn galonogol.

Diane Jones

Prif Weithredwr MCCP Cyf
Rheolwr Canolfan Plant Integredig (Bro Ddyfi)
20fed Mawrth

8 Cyfeiriadau

- Fframwaith Partneriaeth Plant & Phobl Ifanc Powys Archwiliad o Angen 2006
- Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Plant a Phobl ifanc: Fframwaith Partneriaeth 'Gweithredu Hawliau'
- Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant
- Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Hawl Cyffredinol – 'Saith Amcan Craidd' & '10 Hawl'
- Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Polisi Chwarae' (2002)
- Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Cynllun Gweithredu Polisi Chwarae' (2006)
- Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Deddf Gofal Plant ' (2006)
- Llywodraeth Cynulliad Cymru ' Cynllun Gweithredu Gofal Plant' (2002)
- Llywodraeth Cynulliad Cymru ' Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant' (2005) Dogfen Wybodaeth
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2005)
- Cynllun Gweithredu Lleol Powys ar gyfer Amcan 3 (2001-2002) Drafft
- Cyfrifiad 2001– Fforwm Gymunedol Lleol Powys & Machynlleth - LC04
- Arolwg Cyfranogol Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi (2003-4)
- Cynllun Gweithredu Ieuenctid Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi
- Strategaeth Gymunedol Powys
- CSP Strategaeth Chwaraeon Hamdden & Adloniant 2005-2010
- Adroddiad Carreg Filltir 4 Prosiect Braenaru Bro Ddyfi (2005) & Adroddiad Carreg Filltir 1
- Anghenion Cludiant Pobl Ifanc ym Mhowys(2005)
- Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Cynllun Gweithredu Bwys a Ffitrwydd' (2005)
- Joseph Rowntree Foundation (gwefan)
- 'Dyfodol Teg i'n Plant'
- Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Powys
- Chwarae Cymru (gwefan)
- Canolfan Plant Integredig Bro Ddyfi
- Adroddiadau Gwerthuso Chwarae Mynediad Agored (2005-2007)
- County Times & Express (rhifyn Mawrth 16eg 2007)
- Cyngor Chwaraeon Cymru (cyfrannodd gyfeiriad)
- Llyfr Syniadau Cymunedau yn Gyntaf
- Gwerthusiad o Benwythnos Ymgynghori ag Ieuenctid Bro Ddyfi – CSP / Achub y Plant / Cymunedau yn Gyntaf (Bro Ddyfi)